

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL DŴR

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Yn ôl Rheol Sefydlog 29, rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os bydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n newid y cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Dŵr (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 27 Mehefin 2013. Gellir gweld y Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2013-14/water.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Amcanion polisi Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r Bil yw y bydd yn diwygio'r diwydiant dŵr i'w wneud yn fwy arloesol ac ymatebol i gwsmeriaid ac yn gwella ei allu i wrthsefyll peryglon naturiol megis sychder neu lifogydd. Bydd y Bil hefyd yn cynnwys mesurau i ymdrin ag argaeledd a fforddiadwyedd yswiriant rhag llifogydd, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'r dull gweithredu arfaethedig.
4. Mae'r mesurau yn Bil yn cynnwys:
 - Mesurau sy'n caniatáu i bob busnes, elusen a chwsmer yn y sector cyhoeddus newid eu cyflenwr dŵr a charthffosiaeth (a sefydlu marchnad drawsffiniol â'r Alban)
 - Ei gwneud yn haws i'r busnes newydd ymuno â'r farchnad ddŵr er mwyn darparu ffynonellau newydd o wasanaethau dŵr neu drin carthffosiaeth a elwir yn wasanaethau "i fyny'r afon"
 - Ei gwneud yn haws i gwmnïau dŵr brynu a gwerthu dŵr oddi wrth ei gilydd
 - Annog datblygu storio dŵr ar raddfa fach drwy ei gwneud yn haws i berchenogion storio dŵr ar raddfa fawr werthu dŵr dros dro i'r system gyflenwi
 - Darparu pwerau i bennu'r lefel y mae angen i gwmni dŵr gynllunio yn unol â hi er mwyn ymdopi â sychder
 - Ei gwneud yn haws i ddatblygwyr a phenodeion mewnosod gysylltu datblygiadau newydd â'r prif gyflenwad a'r system garthffosiaeth
 - Diwygio'r gyfundrefn uno arbennig i'r diwydiant dŵr

- Gosod dyletswydd gyffredinol newydd i Ofwat ystyried y gallu i wrthsefyll yn yr hirdymor a newidiadau amrywiol eraill er mwyn gwella'r ffordd y mae Ofwat yn rheoleiddio'r diwydiant dŵr
- Cymryd camau i fynd i'r afael ag achosion o dynnu dŵr yn anghynaliadwy drwy newid y ffordd y caiff cynlluniau cwmnïau dŵr i dynnu dŵr yn gynaliadwy unwaith eto eu hariannu
- Gwella cydgysylltu rhwng rheoli adnoddau dŵr a chynllunio ar gyfer sychder
- Darparu pwerau galluogi i symleiddio'r fframwaith trwyddedu amgylcheddol ymhellach drwy gynnwys tri chynllun trwyddedu arall (trwyddedau tynnu a chronni dŵr, cymeradwyaethau ysgolion pysgod a chaniatadau amddiffynfeydd rhag llifogydd) yn amodol ar ymgynghoriad â'r cyhoedd
- Annog y defnydd o Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) drwy egluro y gall adeiladu a chynnal a chadw SDCau fod yn un o swyddogaethau'r ymgymwrwr carthffosiaeth
- Diwygio rhai o'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â llywodraethu Byrddau Draenio Diwydiannol
- Trosglwyddo cyfrifoldeb am gynnal a chadw mapiau o'r prif afonydd i Asiantaeth yr Amgylchedd a Chorff Cyfoeth Naturiol Cymru

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad yn eu cylch

5. Er hwylustod, disgrifir y darpariaethau y ceisir caniatâd yn eu cylch yn y drefn y'u cyflwynwyd yn y Bil. Mae chwe Rhan i'r Bil a 10 Atodlen. Is-rennir Rhan 1 yn Bedair Pennod. Mae'r memorandwm yn cynnwys crynodeb byr o bob Rhan, Pennod neu Atodlen o dan y pennawd penodol hwnnw, ac wedyn cyfeirir at y cymalau eu hunain y ceisir caniatâd yn eu cylch.

Rhestr o bob cymal yn y Bil y ceisir caniatâd y Cynulliad yn ei gylch:

- Cymal 3** (disgrifiad ym mharagraffau 10 ac 11)
- Atodlen 2** (disgrifiad ym mharagraffau 12 – 27)
- Atodlen 5** (disgrifiad ym mharagraff 28)
- Cymal 8** (disgrifiad ym mharagraffau 35 – 44)
- Cymal 10** (disgrifiad ym mharagraffau 45 – 53)
- Cymal 12** (disgrifiad ym mharagraffau 54 – 56)
- Cymal 13** (disgrifiad ym mharagraffau 57 – 58)
- Cymal 16** (disgrifiad ym mharagraffau 59 – 60)
- Cymal 17** (disgrifiad ym mharagraffau 61 – 62)
- Cymal 18** (disgrifiad ym mharagraffau 63 – 64)
- Cymal 19** (disgrifiad ym mharagraffau 65 – 67)
- Cymal 20** (disgrifiad ym mharagraff 68)
- Cymal 21** (disgrifiad ym mharagraffau 69 - 72)
- Cymal 22** (disgrifiad ym mharagraffau 80 – 83)
- Cymal 23** (disgrifiad ym mharagraffau 84 – 85)
- Cymal 24** (disgrifiad ym mharagraffau 86 – 91)
- Cymal 25** (disgrifiad ym mharagraff 92)
- Cymal 26** (disgrifiad ym mharagraffau 93)

Cymal 28 (disgrifiad ym mharagraffau 94 – 95)
Cymal 31 (disgrifiad ym mharagraff 96)
Cymal 32 (disgrifiad ym mharagraff 97)
Cymal 33 (disgrifiad ym mharagraff 98)
Cymal 34 (disgrifiad ym mharagraffau 99 – 100)
Cymal 36 (disgrifiad ym mharagraff 101)
Cymal 37 (disgrifiad ym mharagraffau 102 – 104)
Cymal 38 (disgrifiad ym mharagraff 105)
Atodlen 6 (disgrifiad ym mharagraff 106)
Cymal 39 (disgrifiad ym mharagraffau 111 – 112)
Atodlen 7 (disgrifiad ym mharagraffau 113 – 117)
Cymal 41 (disgrifiad ym mharagraff 123)
Cymal 42 (disgrifiad ym mharagraffau 124 – 132)
Cymal 43 (disgrifiad ym mharagraff 133)
Cymal 44 (disgrifiad ym mharagraffau 136 – 139)
Cymal 45 (disgrifiad ym mharagraffau 140 – 142)
Cymal 46 (disgrifiad ym mharagraffau 143 – 146)
Atodlen 8 (disgrifiad ym mharagraffau 147 – 152)
Atodlen 10 (disgrifiad ym mharagraff 156)

RHAN 1 – Y DIWYDIANT DŴR

PENNOD 1 – Trwyddedau Cyflenwi Dŵr a Thrwyddedau Carthffosiaeth (Cymalau 1-7 ac Atodlenni 1-5)

6. Mae'r Bennod hon yn canolbwyntio ar ymestyn y gyfundrefn trwyddedu cyflenwi dŵr, cyflwyno trwyddedau carthffosiaeth a chreu marchnad fanwerthu drawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr a'r Alban. Bydd y Bil yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 drwy ymestyn a diwygio'r gyfundrefn trwyddedu cyflenwi dŵr gyfredol ac ychwanegu cyfundrefn trwyddedu carthffosiaeth. Mae hefyd yn galluogi diddymu'n gynt y trothwy sy'n pennu'r terfyn defnyddio dŵr pryd y gall cwsmeriaid nad ydynt yn aelwydydd newid cyflenwr. Bydd hyn yn caniatáu i bob busnes, elusen a chwsmer yn y sector cyhoeddus ddewis eu cyflenwr dŵr a charthffosiaeth am y tro cyntaf a galluogi gweithredwr amlsafle i dendro am un cyflenwr ledled Prydain Fawr.
7. Er mwyn hwyluso marchnad fanwerthu drawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr a'r Alban mae'r Bil yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr a'r gyfraith gyfatebol yn yr Alban. Bydd hyn yn caniatáu i Ofwat a Chomisiwn Diwydiant Dŵr yr Alban dderbyn un cais am drwydded gwasanaeth dŵr o fewn awdurdodaeth ei gilydd.
8. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau canlynol (Cymal 3, Atodlen 2 ac Atodlen 5) yn dod o dan gymhwysedd cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â chyflenwi dŵr a rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio

system gyflenwi ymgwymerwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru o dan baragraff 19 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a hybu busnes a chystadleuaeth o dan baragraff 4 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Disgrifir Cymal 3, Atodlen 2 ac Atodlen 5 ymhellach isod.

Cymal 3 – Y gofyniad o ran trothwy

9. Yn gryno, mae'r cymal hwn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud y newidiadau angenrheidiol er mwyn caniatáu i safleoedd nad ydynt yn aelwydydd newid eu cyflenwr dŵr. Bydd hyn yn caniatáu i bob busnes, elusen a chwsmer yn y sector cyhoeddus ddewis eu cyflenwr dŵr. Ar hyn o bryd, o dan adran 17A(3)(b) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr, gall trwyddedeion ond cyflenwi dŵr i safleoedd y mae eu defnydd o ddŵr yn mynd y tu hwnt i'r gofyniad o ran trothwy a nodir yn adran 17D o Ddeddf y Diwydiant Dŵr. Y trothwy cyfredol yw 5 megalitr o ddŵr y flwyddyn i safleoedd a gyflenwir gan ymgwymerwr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr a 50 megalitr o ddŵr y flwyddyn i safleoedd a gyflenwir gan ymgwymerwr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.
10. Er mwyn caniatáu i bob cwsmer nad yw'n aelwyd newid i gyflenwad dŵr gan drwyddedai, byddai Llywodraeth y DU yn disgwyl diddymu'r trothwy hwn ar gyfer safleoedd o fewn ardaloedd ymgwymerwr dŵr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr ar yr un pryd â chyflwyno'r trefniadau trwyddedu cyflenwi dŵr newydd. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy gychwyn Cymal 1 ac Atodlen 1 i'r Bil a fyddai'n dwyn i rym Atodlen 2A i Ddeddf y Diwydiant Dŵr. Mae Atodlen 2A yn amlinellu'r awdurdodiadau newydd o dan y drwydded cyflewi dŵr. Mae Cymal 1 yn disodli pob rhan o adran 17A ac, o dan baragraff 7(b) o Atodlen 2A a fewnosodir, dim ond trwyddedeion cyflenwi dŵr sy'n dal awdurdodiadau manwerthu cyfyngedig (hynny yw, y rhai sy'n defnyddio rhwydweithiau ymgwymerwr dŵr sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru) a fyddai'n parhau'n ddarostyngedig i'r gofyniad o ran trothwy. Gallai'r pŵer i ddiddymu'r trothwy gael ei arfer hefyd cyn cyflwyno'r trefniadau trwyddedu newydd drwy ddiddymu adran 17(A)(3)(b) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr. Byddai'r pŵer hwn yn cael ei arfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer safleoedd yn ardaloedd ymgwymerwr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr a chan Weinidogion Cymru ar gyfer safleoedd yn ardaloedd ymgwymerwr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.

Atodlen 2: Dyletswyddau ymgwymerwr dŵr o ran trwyddedeion cyflenwi dŵr

11. Mae'r Atodlen hon yn cyflwyno diwygiadau i Ddeddf y Diwydiant Dŵr i ehangu dyletswyddau ymgwymerwr dŵr er mwyn ystyried yr awdurdodiadau newydd a ganiateir o dan y drwydded cyflenwi dŵr. Mae adrannau 66A i 66C (fely y'u cyflwynwyd gan baragraff 1) yn amlinellu'r dyletswyddau newydd a osodir ar ymgwymerwr dŵr pan fydd trwyddedai

cyflenwr dŵr yn gwneud cais am fynediad i'w system o dan y trefniadau cyflenwr dŵr estynedig newydd.

12. Mae'r adran 66A newydd o Ddeddf y Diwydiant Dŵr yn gymwys pan fydd trwyddedai cyflenwi dŵr sydd ag awurdodiad manwerthu neu awdurdodiad manwerthu cyfyngedig yn gwneud cais i ymgwymerwr dŵr ganiatáu i'r trwyddedai ddefnyddio ei system i ddarparu gwasanaethau manwerthu i safleoedd cymwys yn ardal ymgwymerwr dŵr (gan gynnwys bilio, mesuryddion darllen, gwasanaethau cwsmeriaid ac ati) gan ddefnyddio system gyflenwr yr ymgwymerwr. Mae'r ymgwymerwr dŵr o dan ddyletswydd i weithredu yn unol â chytundeb adran 66D a chymryd y cyfryw gamau ag sy'n angenrheidiol i gysylltu safle pan fydd y trwyddedai yn gofyn iddo wneud hynny ac i alluogi'r cytundeb i fod yn weithredol. Mae awdurdodiad manwerthu mewn trwydded cyflenwi dŵr yn caniatáu i'r trwyddedai ddefnyddio system gyflenwi ymgwymerwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr i ddarparu gwasanaethau cyflenwi dŵr i safleoedd nad ydynt yn aelwydydd. Mae'r rhain yn cynnwys ei safleoedd ei hun nad ydynt yn aelwydydd, safleoedd cyswllt y trwyddedai a safleoedd cymwys ei gwsmeriaid ei hun. Mae awdurdodiad manwerthu cyfyngedig mewn trwydded cyflenwi dŵr yn caniatáu i'r trwyddedai ddefnyddio system gyflenwi ymgwymerwr dŵr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau i safleoedd ei gwsmeriaid nad ydynt yn aelwydydd sy'n bodloni'r gofyniad o dan adran 17D (trothwy o 50 megalitr o ddŵr y flwyddyn).
13. Gall yr ymgwymerwr dŵr hefyd wrthod caniatáu i'w system gyflenwi gael ei defnyddio gan ddeiliad awdurdodiad manwerthu neu fanwerthu cyfyngedig: pan fo'r trwyddedai wedi methu â sicrhau cyflenwad dŵr neu pan na fo'r gosodiadau dŵr dan sylw yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau a lunnir o dan adran 74 (rheoliadau ar gyfer atal halogi, gwastraff ac ati mewn perthynas â gosodiadau dŵr) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr.
14. Mae'r adran 66AA newydd yn caniatáu i drwyddedai cyflenwi dŵr sydd ag awdurdodiad manwerthu neu awdurdodiad manwerthu cyfyngedig wneud cais am gyflenwad o ddŵr gan yr ymgwymerwr dŵr i wasanaethu safleoedd cymwys o dan delerau'r awdurdodiad perthnasol. Mae'n rhaid i'r dŵr gael ei gyflenwi yn unol â chytundeb 66D newydd. Mae'n rhaid i'r ymgwymerwr dŵr gymryd y camau angenrheidiol i alluogi cyflenwi dŵr ac eithrio o dan yr amgylchiadau canlynol: nid yw'r cais yn cynnwys cyflenwi i safle sy'n cynnwys adeilad cyfan neu ran o adeilad neu nid yw'r cais am gyflenwi dŵr at ddibenion domestig (hynny yw os nad yw'r dŵr at ddibenion yfed, golchi, coginio, gwres canolog na glanweithdra); a lle mae'n cynnwys costau afresymol neu lle mae'n peri risg na fydd yr ymgwymerwr yn gallu cyflawni rhwymedigaethau presennol a rhwymedigaethau yn y dyfodol.
15. Mae'r adran 66B newydd yn gymwys pan fydd trwyddedai cyflenwi dŵr sydd ag awdurdodiad cyfanwerthu neu awdurdodiaeth atodol yn gwneud cais i ymgwymerwr dŵr ganiatáu i'r trwyddedai gyflwyno dŵr i system gyflenwi'r ymgwymerwr er mwyn cyflenwi dŵr i safle yn ardal yr ymgwymerwr o dan awdurdodiad manwerthu neu fanwerthu cyfyngedig priodol. Mae

awdurdodiad cyfanwerthu mewn trwydded cyflenwi dŵr yn caniatáu i'r trwyddedai gyflwyno dŵr i mewn i system gyflenwi ymgwymerwr dŵr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr mewn cysylltiad ag awdurdodiad manwerthu'r trwyddedai ei hun neu awdurdodiad manwerthu trwyddedai arall. Mae awdurdodiad atodol mewn trwydded cyflenwi dŵr yn caniatáu i'r trwyddedai gyflwyno dŵr i mewn i system gyflenwi ymgwymerwr dŵr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru mewn cysylltiad ag awdurdodiad manwerthu cyfyngedig. Mae'n rhaid i ddŵr gael ei gyflwyno yn unol â chytundeb adran 66D. Mae'r ymgwymerwr dŵr o dan ddyletswydd i gymryd camau priodol yn unol â'r cytundeb adran 66D (er enghraifft gosod prif bibell neu bibellau, a ystyrir yn brif gyflenwad dŵr) er mwyn cysylltu sytem gyflenwi'r ymgwymerwr neu'r gwaith trin. Nid oes rhaid i'r ymgwymerwr dŵr ganiatáu i ddŵr gael ei gyflwyno os bydd yn effeithio ar ei allu i gyflawni rhwymedigaethau cyflenwi presennol neu yn y dyfodol neu os byddai'n rhaid i'r ymgwymerwr fynd i gostau afresymol er mwyn cynnal y gwaith.

16. Mae'r adran 66C newydd yn caniatáu i drwyddedai cyflenwi dŵr wneud cais am gyflenwad gan ymgwymerwr dŵr cyfagos er mwyn gwasanaethu safle cymwys o dan awdurdodiad manwerthu neu fanwerthu cyfyngedig. Mae'r ymgwymerwr cyfagos (yr ymgwymerwr eilaidd) o dan ddyletswydd i alluogi'r cyflenwad hwnnw i gael ei wneud oni fyddai'n arwain at gostau afresymol neu os bydd yn effeithio ar ei rwymedigaethau cyflenwi ei hun. Mae'r safleoedd cymwys y gellir eu cyflenwi o dan awdurdodiad manwerthu yn gyfyngedig lle daw'r dŵr o ymgwymerwr eilaidd sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Gall yr ymgwymerwr dŵr a benodir i'r ardal lle mae'r safle wedi'i leoli (y prif ymgwymerwr) hefyd wrthod galluogi'r cyflenwad hwnnw ar yr un seiliau â'r ymgwymerwr eilaidd. Mae'n rhaid i'r dyletswyddau gael eu cyflawni yn unol â chytundeb adran 66D.
17. Mae paragraff 2 yn mewnosod adran 66CA newydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr ynglŷn â phenderfyniadau gan Ofwat. Gall trwyddedeion cyflenwi dŵr gyfeirio cwestiynau ynghylch a oes gan ymgwymerwr sail i wrthod cyflawni ei ddyletswyddau cysylltu neu gyflenwi mewn unrhyw achos penodol i gael penderfyniad. Cyn penderfynu ynglŷn â darpariaethau penodol mae'n rhaid i Ofwat ymgynghori'n gyntaf â'r Ysgrifennydd Gwladol a/neu Weinidogion Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd neu Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y bo'n briodol.
18. Mae paragraff 3 yn cynnig adran 66D newydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cytundebau mewn perthys â'r dyletswyddau o dan adrannau 66A i 66C. Os na all ymgwymerwyr a thrwyddedeion gytuno ar drefniadau rhyngddynt o dan adrannau 66A i 66C caiff unrhyw un o'r partion wneud cais i Ofwat er mwyn i'r rheoleiddiwr benderfynu ar delerau cytundeb drwy orchymyn, newid telerau cytundeb sy'n bodoli eisoes, neu derfynu cytundeb. Mae'r gorchymyn yn weithredol fel cytundeb rhwng y partion neu, yn ôl y digwydd, mae'r cytundeb sy'n bodoli eisoes yn weithredol yn amodol ar y cytundebau a'r cytundebau a newidiwyd drwy orchymyn, yn ogystal â chytundebau gwirioneddol o dan y dyletswyddau yn yr adrannau 66A i 66C newydd, y cyfeirir atynt fel "cytundebau adran 66D".

19. Mae paragraff 4 yn mewnosod adrannau 66DA i 66DC newydd ynglŷn â chodau yn Neddf y Diwydiant Dŵr. Mae'r adran 66DA newydd yn rhoi pŵer i Ofwat gyhoeddi un cod neu fwy sy'n ymwneud â chytundebau adran 66D mewn achosion penodol neu'n fwy cyffredinol. Gall y codau hyn nodi telerau ac amodau safonol neu benodol rhwng ymgymmerwyr dŵr a thrwyddedeion cyflenwi dŵr, a'r gweithdrefnau a'r camau i'w cymryd i lunio, diwygio neu derfynu cytundeb. Gall cod hefyd nodi'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i Ofwat eu dilyn mewn perthynas â'r trefniadau lle na all partïon ddod i gytundeb. Gall Ofwat gyfarwyddo partïon cytundebau adran 66D i gydymffurfio â'r cod. Mae'r cyfarwyddyd yn orfodadwy o dan adran 18 (gorchmynion ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau penodol) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr.
20. Mae'r adran 66DB newydd yn amlinellu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i Ofwat eu dilyn wrth lunio cod, gan gynnwys y cyrff y mae'n rhaid iddi ymgynghori â hwy. Mae'n rhaid i Ofwat bennu'r cyfnod ymgynghori pan fydd ymgynghoreion yn gallu gwneud sylwadau. O fewn 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod ymgynghori hwnnw gall yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Ofwat i beidio â chyhoeddi'r cod neu i'w ddiwygio yn unol â chyfarwyddyd. Mae pwerau Gweinidogion Cymru o ran hyn ond yn ymwneud â chod os neu i'r graddau y mae'r cod yn ymwneud â chytundebau adran 66D ag ymgymmerwyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd ar y cyd ar gyfer codau sy'n ymwneud â chytundebau 66D sy'n gorgyffwrdd (e.e. cod cyflenwi eilaidd lle mae un ymgymmerwr yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac mae'r llall yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr). Bwriad Llywodraeth y DU yw y bydd yn caniatáu i Weinidogion sicrhau y caiff eu cyfrifoldebau ansawdd dŵr ac amgylcheddol eu hystyried yn y cod. Dim ond unwaith, a dim ond mewn perthynas ag argraffiad cyntaf y cod, y gall yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn i roi cyfarwyddyd.
21. Mae'r adran 66DC newydd yn amlinellu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i Ofwat eu dilyn os cred fod y diwygiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i god yn rhai mân neu'n rhai brys eu natur.
22. Mae paragraff 5 yn cynnig adran 66E newydd ac yn mewnosod adrannau 66EA-66EC newydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr sy'n nodi rheolau ynglŷn â thaliadau a godir. Mae'r adran 66E newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofwat gyhoeddi a diwygio rheolau ynglŷn â thaliadau y gall ymgymmerwyr dŵr eu codi o dan gytundebau adran 66D. Mae'r rheolau hyn yn disodli'r "egwyddor costau" presennol ac mae'n rhaid iddynt gynnwys darpariaethau a fyddai'n caniatáu i gwsmer barhau i fanteisio ar dâl gostyngedig a godir gan ymgymmerwr wrth iddo newid i drwyddedai. Gall Ofwat roi cyfarwyddyd i'r ymgymmerwr os cred nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau a gall gymell y ddau barti i addasu cytundeb adran 66D er mwyn cydymffurfio â'r rheolau. Mae'r cyfarwyddyd yn orfodadwy o dan adran 18 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr.

23. Mae'r adran 66EA newydd yn darparu bod rheolau Ofwat yn cynnwys darpariaethau ynglŷn â gostwng taliadau a godir o dan gytundebau 66D er mwyn caniatáu i drwyddedai sydd ag awdurdodiad manwerthu (neu fanwerthu cyfyngedig) sy'n un o bartïon cytundeb adran 66D i wneud cais am dâl gostyngol pan fydd y trwyddedai neu gwsmeriaid y trwyddedai yn cymryd camau i leihau pwysau ar system gyflenwi ymgwymerwr dŵr (er enghraifft drwy gytuno i gymryd llai o ddŵr yn ystod cyfnodau brig neu yn ystod sychder). Wrth dderbyn cais am dâl gostyngol, gall Ofwat osod amodau ar bartïon cytundeb adran 66D, yn benodol i drosglwyddo'r tâl gostyngol i gwsmeriaid.
24. Mae'r adran 66BB newydd yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Ofwat ei dilyn wrth gyhoeddi rheolau ynglŷn â chodi tâl, gan gynnwys gofyniad i ymgynghori â phersonau perthnasol. Wrth baratoi'r rheolau drafft mae'n rhaid i Ofwat ystyried unrhyw ganllawiau ar godi tâl a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid i Ofwat bennu'r cyfnod ymgynghori pan fydd ymgynghoreion yn gallu gwneud sylwadau. O fewn 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod ymgynghori hwnnw gall yr Ysgrifennydd Gwladol/Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Ofwat i beidio â chyhoeddi'r rheolau neu i'w diwygio yn unol â chyfarwyddyd lle mae'r rheolau yn ymwneud â phrif gysylltiadau rhwng ymgwymerwyr o fewn eu priod awdurdodaethau. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd ar y cyd os yw'r rheolau yn ymwneud â chytundebau 66D sy'n gorgyffwrdd (e.e. cod cyflenwi eilaidd lle mae un ymgwymerwr yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru ac mae'r llall yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr).
25. Mae'r adran 66EC newydd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi canllawiau ar godi tâl i Ofwat ynglŷn â thaliadau a godir gan ymgwymerwyr ar gyfer eu priod awdurdodaethau a chanllawiau ar y cyd ar gyfer cytundebau adran 66D sy'n gorgyffwrdd (e.e. cytundeb cyflenwi eilaidd fel uchod). Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ymgynghori â'i gilydd a phersonau perthnasol ynglŷn â'u priod ganllawiau.
26. Mae paragraffau 6 i 9 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau eraill yn yr un Bennod o Ddeddf y Diwydiant Dŵr.

Atodlen 5: Ymestyn darpariaethau trwyddedu yng Nghymru

27. Mae'r Atodlen hon yn gwneud darpariaeth benodol i ymestyn y darpariaethau trwyddedu dŵr a charthffosiaeth newydd yn ardaloedd ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae'r Atodlen yn diddymu cyfeiriadau at "awdurdodiadau manwerthu cyfyngedig" ac "awdurdodiadau atodol" a darpariaethau eraill sy'n cyfyngu ar y ffordd y cymhwysir y darpariaethau trwyddedu newydd i ymgwymerwyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru (neu Loegr). Mae'r darpariaethau yn yr Atodlen hon hefyd yn gwneud darpariaethau canlyniadol mewn perthynas ag ymgynghori â Gweinidogion Cymru a Phrif Arolygydd Dŵr Yfed Cymru. Mae'r Atodlen yn gwneud darpariaethau i i'r

Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud pethau penodol ar y cyd ac yn gwneud diwygiadau gweithdrefnol canlyniadol, gan gynnwys darparu ar gyfer rôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ochr yn ochr â Senedd y DU.

PENNOD 2 - Ymgwymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth (Cymalau 8 - 21)

28. Mae'r Bennod hon yn canolbwyntio ar drefniadau rhwng ymgwymerwyr, penodiadau mewnosod, dyletswyddau Ofwat a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ynglŷn ag uno, canllawiau codi tâl yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, rheolau Ofwat ynglŷn â chodi tâl, taliadau a godir gan ymgwymerwyr a draenio cynaliadwy.
29. Mae Llywodraeth y DU am wella rhyngylltedd rhwng ymgwymerwyr mewn perthynas ag adnoddau dŵr. Felly bydd y Bil yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr er mwyn cyflwyno codau a rheolau gan Ofwat ynglŷn â chodi tâl gyda'r nod o sicrhau mwy o dryloywder a symleiddio cyd-drafodaethau rhwng ymgwymerwyr, gan gynnwys y penodeion newydd. Mae'r darpariaethau hyn yn debyg i'r trefniadau rhwng ymgwymerwyr ar gyfer prif gysylltiadau â systemau carthffosiaeth.
30. Ym marn Llywodraeth y DU, mae'r gyfundrefn uno arbennig bresennol yn Neddf y Diwydiant Dŵr yn wrthanogaeth i gwmnïau dŵr uno ac yn creu ansicrwydd pan gynigir uno neu pan fo uno wedi digwydd. Felly bydd y Bil yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr er mwyn caniatáu i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd benderfynu a ddylid cyfeirio achos o uno ai peidio, neu a ddylid derbyn ymgwymeriadau i wneud iawn am golli cymharydd yn lle cyfeirio achos. Mae'r Bil hefyd yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr er mwyn cynnwys dyletswydd newydd ar yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd i barhau i adolygu trothwy trosiant uno (a bennir fel trosiant blynyddol o £10 miliwn ar hyn o bryd lle mae'r ymgwymerwr sy'n caffael, yr ymgwymerwr targed neu'r ddau ymgwymerwr yn cyrraedd y trothwy hwn neu'n mynd y tu hwnt iddo).
31. Mae Deddf y Diwydiant Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth gytuno ar gynlluniau codi tâl ag Ofwat cyn codi tâl ar eu cwsmeriaid. Yn gyffredinol ystyrir bod hwn yn ddull gweithredu rhy reoliadol a beichus sy'n mynd ag adnoddau sylweddol bob blwyddyn. Felly mae'r Bil yn diddymu'r ddyletswydd hon ac yn gosod yn ei lle ddyletswydd ar Ofwat i lunio rheolau ynglŷn â chodi tâl y mae'n rhaid i gwmnïau gydymffurfio â hwy wrth bennu eu cynlluniau codi tâl. Ochr yn ochr â hyn mae'r Bil hefyd yn caniatáu creu cynllun codi tâl newydd i ddatblygwyr sy'n cysylltu â seilwaith dŵr a charthffosiaeth.
32. Bydd y Bil hefyd yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr er mwyn rhoi'r pŵer i ymgwymerwyr adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu systemau draenio.
33. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau canlynol (cymalau 8, 10, 12, 13, 16 - 21) yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad

Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â chyflenwi dŵr, rheoli perygl llifogydd, rheoleiddio ymgwymerwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a rheoleiddio gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio system gyflenwi ymgwymerwyr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru o dan baragraff 19 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a diogelu'r amgylchedd a draenio tir o dan baragraff 6 o Ran 1 Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Disgrifir cymalau 8, 10, 12, 13, 16, 17, 18, 19, 20 ac 21 ymhellach isod.

Cymal 8 – Swmpgyflenwi dŵr gan ymgwymerwyr dŵr

34. Mae'r cymal hwn yn disodli adrannau 40 a 40A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr ac yn eu lle yn rhoi darpariaethau i reoleiddio trefniadau swmpgyflenwi dŵr rhwng "y cyflenwr" (ymgwymerwr dŵr) a "pherson sy'n gymwys" (ymgwymerwr dŵr arall neu berson sydd wedi gwneud cais i ddod yn ymgwymerwr). Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys pan fydd un o'r partïon yn gwneud cais i Ofwat am benderfyniad.
35. Mae'r adran 40 newydd yn caniatáu i Ofwat, pan fydd un o'r partïon mewn cytundeb yn gwneud cais, wneud gorchymyn i'r cyflenwr swmpgyflenwi dŵr i berson cymwys, ac i'r person cymwys hwnnw ei dderbyn o dan y cyfryw delerau ac amodau ag a nodir gan Ofwat. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, dim ond os yw Ofwat yn fodlon bod swmpgyflenwi yn angenrheidiol neu'n hwylus er mwyn sicrhau'r defnydd effeithlon o adnoddau dŵr a dim ond os yw'n fodlon na all y partïon ddod i gytundeb eu hunain y gall wneud gorchymyn. Mae cytundeb a osodir drwy orchymyn yn dod yn weithredol fel cytundeb rhwng y partïon ac felly byddai'n orfodadwy o dan gyfraith breifat.
36. Mae'r adran 40A newydd yn cymhwyso darpariaethau tebyg i'r rhai o dan yr adran 40 newydd pan fydd unrhyw barti sy'n rhan o gytundeb swmpgyflenwi presennol am newid neu derfynu trefniant i swmpgyflenwi dŵr. Mae trefniant swmpgyflenwi yn cynnwys un a wnaed o wirfodd y partïon ac un a wneir neu a newidir drwy orchymyn o dan adran 40 neu 40A.
37. Mae'r adran 40B newydd yn rhoi pŵer i Ofwat gyhoeddi neu ddiwygio un cod neu fwy sy'n ymwneud â chytundebau swmpgyflenwi mewn achosion penodol neu'n fwy cyffredinol. Gall y codau hyn nodi telerau ac amodau safonol neu benodol rhwng y partïon a all fod yn orfodol ai peidio; gallant gynnwys egwyddorion ar gyfer penderfynu pa delerau ac amodau sy'n addas ar gyfer trefniadau swmpgyflenwi penodol, neu'n fwy cyffredinol; a gallant hefyd gynnwys y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd ymgwymerwr yn cael cais i gytuno i swmpgyflenwi ac ar gyfer y camau i'w cymryd i lunio, diwygio neu derfynu cytundeb. Mae gan Ofwat bŵer i roi cyfarwyddyd lle y cred nad yw ymgwymerwr yn gweithredu yn unol â'r codau. Mae'r cyfarwyddyd yn orfodadwy o dan adran 18 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr.

38. Mae'r adran 40C newydd yn amlinellu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i Ofwat eu dilyn wrth lunio cod, gan gynnwys gofyniad i ymgynghori ynglŷn â chynnwys y cod arfaethedig. Mae'n rhaid i Ofwat bennu'r cyfnod ymgynghori pan fydd ymgynghoreion yn gallu gwneud sylwadau. O fewn 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod ymgynghori hwnnw gall yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gyfarwyddo Ofwat i beidio â chyhoeddi'r rheolau neu i'w diwygio yn unol â chyfarwyddyd lle mae cod yn ymwneud â swmpgyflenwi rhwng ymgymerywyr o fewn eu priod awdurdodaethau. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ar y cyd os yw cod yn ymwneud â swmpgyflenwi rhwng ymgymerywyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr ac ymgymerywyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Dim ond unwaith a dim ond mewn perthynas ag argraffiad cyntaf y cod y gall y gweinidog perthnasol ddefnyddio'r pŵer hwn i roi cyfarwyddyd.
39. Mae'r adran 40D newydd yn amlinellu'r weithdrefn y mae'n rhaid i Ofwat ei dilyn os cred fod y diwygiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i god yn rhai mân neu'n rhai brys eu natur. Nid oes rhaid i'r weithdrefn yn adran 40C gael ei dilyn mewn perthynas â'r cyfryw ddiwygiadau, ond mae darpariaethau hysbysu yn gymwys. Gallai mân newidiadau i god gynnwys newidiadau bach nad ydynt yn ddadleuol neu ddiwygiadau technegol (e.e. newid manylion cyswllt) tra gallai newidiadau brys gynnwys diwygiadau sydd eu hangen i ddiogelu defnyddwyr, iechyd y cyhoedd neu'r amgylchedd. Mae newidiadau brys yn peidio â bod yn weithredol ar ddiwedd cyfnod o chwe mis ar ôl cyhoeddi'r diwygiad. Y bwriad yw y byddai Ofwat yn defnyddio'r cyfnod hwn i ymgynghori ynglŷn â gwneud y diwygiad yn un parhaus neu ystyried gwneud diwygiad amgen yn ei le sy'n cynnig ateb mwy parhaol i'r broblem yr oedd yn ceisio ei hunioni.
40. Mae'r adran 40E newydd yn caniatáu i Ofwat gyhoeddi a diwygio rheolau ynglŷn â thaliadau y gall ymgymerywyr dŵr eu codi ar bersonau cymwys eraill o dan drefniadau swmpgyflenwi dŵr. Mae gan Ofwat bŵer i roi cyfarwyddyd sy'n orfodadwy o dan adran 18 os cred nad yw ymgymerywr yn gweithredu yn unol â'r rheolau ynglŷn â chodi tâl.
41. Mae'r adran 40F newydd yn caniatáu i reolau Ofwat ynglŷn â chodi tâl gynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i barti cytundeb swmpgyflenwi wneud cais am dâl gostyngol pan fydd y parti neu ei gwsmeriaid yn cymryd camau i leihau pwysau ar adnoddau dŵr (er enghraifft drwy gytuno i gymryd llai o ddŵr yn ystod cyfnodau brig neu yn ystod sychder ac ati). Drwy dderbyn cais am dâl gostyngol, gall Ofwat osod amodau ar bartïon cytundeb swmpgyflenwi, a gall y rheolau gynnwys gofynion i hysbysu Ofwat am y tâl gostyngol.
42. Mae'r adran 40G newydd yn amlinellu'r weithdrefn y mae'n rhaid i Ofwat ei dilyn cyn cyhoeddi rheolau ynglŷn â chodi tâl, gan gynnwys gofyniad i ymgynghori. Wrth baratoi'r rheolau drafft mae'n rhaid i Ofwat ystyried unrhyw ganllawiau ar godi tâl a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid i Ofwat bennu'r cyfnod ymgynghori pan fydd ymgynghoreion yn gallu gwneud sylwadau. O fewn 28 diwrnod i

ddiwedd y cyfnod ymgynghori hwnnw gall yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gyfarwyddo Ofwat i beidio â chyhoeddi'r rheolau neu i'w diwygio yn unol â chyfarwyddyd lle mae'r rheolau yn ymwneud â swmpgyflenwi rhwng ymgymerwyr o fewn eu priod awdurdodaethau. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ar y cyd os yw'r rheolau yn ymwneud â swmpgyflenwi rhwng ymgymerwyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr ac ymgymerwyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Ni all Ofwat gyhoeddi'r rheolau nes bod y cyfnod hwn o 28 diwrnod wedi mynd heibio.

43. Mae'r adran 40H newydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i lunio a diwygio canllawiau ar godi tâl i Ofwat sy'n berthnasol i swmpgyflenwi o fewn eu priod awdurdodaethau neu ar y cyd lle mae'r rheolau yn ymwneud yn benodol â swmpgyflenwi rhwng ymgymerwyr yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr ac ymgymerwyr yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ymgynghori â'i gilydd a phersonau perthnasol ynglŷn â'u canllawiau drafft cyn eu cyhoeddi.

Cymal 10: Cytundebau gan ymgymerwr dŵr i fabwysiadu seilwaith

44. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 51A (cytundebau i fabwysiadu pibell prif gyflenwad neu bibell wasanaethu yn y dyfodol) ac yn disodli adrannau 51B a 51C â darpariaethau i reoleiddio trefniadau rhwng ymgymerwr dŵr ac unrhyw berson sy'n ceisio darparu pibellau prif gyflenwad neu bibellau cyflenwi i'w mabwysiadu yn y pen draw gan yr ymgymerwr dŵr (trefniadau adran 51A). Mae'r darpariaethau hyn yn gymwys pan fydd y cyfryw berson yn gwneud cais i Ofwat am benderfyniad. Gallai'r cyfryw berson fod yn ddatblygwr sy'n adeiladu safle newydd y mae am ei gysylltu â rhwydwaith y prif gyflenwad neu gwmni gosod pibellau sy'n gweithredu ar ran datblygwr.
45. Mae'r adran 51B newydd yn caniatáu i Ofwat, os bydd person sydd am i ymgymerwr dŵr fabwysiadu ei brif gyflenwad neu ei bibellau yn gwneud cais, wneud gorchymyn ar gyfer mabwysiadu yn y dyfodol o dan y cyfryw delerau ac amodau ag a bennir gan Ofwat. Ni all Ofwat orfodi'r ymgymerwr i fabwysiadu prif gyflenwad neu bibellau os bydd hynny'n torri unrhyw un o ofynion y rheoliadau o dan adran 74 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr. Mae cytundeb a osodir drwy orchymyn yn dod yn weithredol fel cytundeb rhwng y partïon ac felly byddai'n orfodadwy o dan gyfraith breifat.
46. Mae'r adran 51C newydd yn cymhwyso darpariaethau tebyg i'r rhai o dan yr adran 51B newydd pan fydd unrhyw barti sy'n rhan o gytundeb 51A presennol am newid neu derfynu'r trefniant i fabwysiadu. Mae cytundeb yn cynnwys un a wnaed o wirfodd y partïon ac un a wneir neu a newidir drwy orchymyn.
47. Mae'r adran 51CA newydd yn rhoi pŵer i Ofwat gyhoeddi neu ddiwygio un neu fwy o godau sy'n ymwneud â chytundebau 51A mewn achosion

penodol neu'n fwy cyffredinol. Gall y codau hyn nodi telerau ac amodau safonol neu benodol rhwng y partion a all fod yn orfodol ai peidio; gallant gynnwys egwyddorion ar gyfer penderfynu pa delerau ac amodau sy'n addas ar gyfer cytundebau 51A, neu'n fwy cyffredinol; yr amgylchiadau lle bydd yn briodol i'r person sy'n ceisio mabwysiadu gynnal y gwaith yn lle'r ymgwymerwr dŵr a gallant hefyd gynnwys gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd ymgwymerwr yn cael cais i gytuno a'r camau i'w cymryd er mwyn llunio, diwygio neu derfynu cytundeb. Mae gan Ofwat bŵer i roi cyfarwyddyd lle y cred nad yw ymgwymerwr yn gweithredu yn unol â'r codau. Mae'r cyfarwyddyd yn orfodadwy o dan adran 18 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr.

48. Mae'r adran 51CB newydd yn amlinellu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i Ofwat eu dilyn wrth lunio cod, gan gynnwys gofyniad i ymgynghori â'r Arolygiaeth Yfed Dŵr a phersonau perthnasol eraill. Mae'n rhaid i Ofwat bennu'r cyfnod ymgynghori pan fydd ymgynghoreion yn gallu gwneud sylwadau. O fewn 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod ymgynghori hwnnw gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Ofwat i beidio â chyhoeddi'r cod neu i'w ddiwygio yn unol â chyfarwyddyd. Mae pwerau Gweinidogion Cymru o ran hyn ond yn ymwneud â chod, neu â'r rhan honno o'r cod sy'n ymwneud â threfniadau ag ymgwymerwyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Dim ond mewn perthynas ag argraffiad cyntaf y cod y gall y gweinidog perthnasol ddefnyddio ei bŵer i roi cyfarwyddyd.
49. Mae'r adran 51CC newydd yn amlinellu'r weithdrefn y mae'n rhaid i Ofwat ei dilyn os cred fod y digwybiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i god yn rhai mân neu'n rhai brys eu natur.
50. Mae'r adran 51CD newydd yn caniatáu i Ofwat gyhoeddi a diwygio rheolau ynglŷn â thaliadau y gall ymgwymerwyr dŵr eu codi o dan gytundebau adran 51A. Mae gan Ofwat bŵer i roi cyfarwyddyd sy'n orfodadwy o dan adran 18 os cred nad yw ymgwymerwr yn gweithredu yn unol â'r rheolau ynglŷn â chodi tâl.
51. Mae'r adran 51CE newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Ofwat ymgynghori â phersonau perthnasol ynglŷn â'r rheolau drafft. Wrth baratoi'r rheolau drafft mae'n rhaid i Ofwat ystyried unrhyw ganllawiau ar godi tâl a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru.
52. Mae'r adran 51CF newydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i lunio a diwygio canllawiau ar godi tâl i Ofwat sy'n berthnasol i swmpgyflenwi o fewn eu priod awdurdodaethau. Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ymgynghori â'i gilydd a phersonau perthnasol ynglŷn â'u canllawiau drafft cyn eu cyhoeddi.

Cymal 12: Trefniadau ar gyfer ymgwymerwyr dŵr i gymryd dŵr oddi wrth bersonau eraill

53. Mae'r cymal hwn yn mewnosod Pennod 2B yn Neddf y Diwydiant Dŵr. Yr adrannau newydd perthnasol ym Mhennod 2B yw adrannau newydd 66M, 66N, 66O a 66P. Mae'r adran 66M newydd yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n rhoi ar waith ddarpariaethau sy'n rhoi swyddogaethau iddynt hwy eu hunain ac Ofwat ac sy'n gwahardd Ofwat a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd rhag defnyddio pwerau yn Neddf Cystadleuaeth 1998 mewn perthynas â chytundebau cyflenwi dŵr rhwng ymgymerwyr a phersonau eraill.
54. Mae'r adran 66N newydd yn darparu y gall y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i ymgymerwr dŵr gymryd cyflenwad dŵr oddi wrth berson perthnasol a chynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i'r cyfryw gytundeb cyflenwi gael ei newid neu ei derfynu. Mae'n rhaid i'r rheoliadau gynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i Ofwat wneud gorchymyn sy'n gosod cytundeb cyflenwi dŵr dim ond ar ôl i un o'r partion wneud cais a lle na allant ddod i gytundeb. Gall y rheoliadau hefyd gynnwys darpariaethau sy'n amlinellu amgylchiadau eraill lle y gall Ofwat wneud gorchymyn.
55. Mae'r adran 66O newydd yn galluogi'r rheoliadau i roi pwerau i Ofwat gyhoeddi codau gorfodadwy a rheolau ynglŷn â chodi tâl er mwyn rheoleiddio cytundebau cyflenwi dŵr a rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gynnwys rheolau Ofwat ynglŷn â chodi tâl. Gall y rheoliadau hefyd wneud newidiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth.
56. Mae'r adran 66P newydd yn amlinellu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru eu dilyn wrth lunio'r rheoliadau, gan gynnwys y cyrff y mae'n rhaid i'r Gweinidogion ymgynghori â hwy cyn gosod y rheoliadau drafft gerbron y Senedd neu'r Cynulliad.

Cymal 13: Gweithdrefn mewn perthynas â phenodiadau mewnosod

57. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 8 (gweithdrefn mewn perthynas â phenodiadau a'u newid) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr drwy ymestyn y rhestr o bersonau a ddylai gael hysbysiadau fel rhan o'r broses ymgeisio i fod yn benodai mewnosod. Ar hyn o bryd mae'r rhestr ond yn cynnwys yr ymgymerwr lleol, yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol ac awdurdodau lleol yn ardal y mewnosodiad arfaethedig.
58. Mae'r cymal yn tynnu enw'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol oddi ar y rhestr o ymgynghoreion ac yn ychwanegu Asiantaeth yr Amgylchedd a Chorff Cyfoeth Naturiol Cymru (cyrff olynol yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol), ac yn newid penodeion cyflenwi dŵr, naill ai'r Prif Arolygydd Yfed Dŵr neu Brif Arolygydd Yfed Dŵr Cymru fel y bo'n gymwys.

Cymal 16: Cynllun codi tâl

59. Mae'r cymal hwn yn cymryd lle rhannau o adran 143 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr. Mae'n dileu'r gofyniad nad yw cynlluniau codi tâl ymgwymerwyr yn weithredol nes bod Ofwat wedi'u cymeradwyo. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i ymgwymerwyr lunio eu cynlluniau codi tâl yn unol â'r rheolau y gall Ofwat eu llunio.
60. Mae'r cymal hefyd yn cyflwyno adrannau newydd 143B – 143D sy'n disgrifio'r rheolau ac yn nodi'r broses o lunio'r cyfryw reolau. Mae sawl gofyniad y mae'n rhaid i gynlluniau codi tâl gydymffurfio â hwy o dan y ddeddfwriaeth, mewn egwyddorion a luniwyd gan Ofwat ac mewn amodau penodi. Mae'r adrannau newydd hyn yn rhoi pŵer i Ofwat gyhoeddi (ac wedyn ddiwygio) rheolau ynglŷn â chodi tâl y mae'n rhaid i gynlluniau codi tâl ymgwymerwyr gydymffurfio â hwy hefyd. Mae hefyd yn rhoi pŵer cyfarwyddo i Ofwat, sy'n orfodadwy o dan adran 18 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr os cred Ofwat nad yw cwmni yn gweithredu yn unol â'r rheolau. Mae'r adrannau newydd hefyd yn nodi bod yn rhaid i Ofwat ymgynghori ynglŷn â'r rheolau drafft ac ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru.

Cymal 17: Rheolau ynglŷn â chodi tâl am gysylltiadau ac ati

61. Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran 144ZA newydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr sy'n caniatáu i Ofwat gyhoeddi rheolau ynglŷn â thaliadau y gall ymgwymerwyr dŵr ac ymgwymerwyr carthffosiaeth eu codi am gysylltiadau â'r prif gyflewnad, carthffosydd cyhoeddus a rhai mathau o seilwaith cysylltiedig a'u darparu. Mae'r rheolau hyn yn cymryd lle'r darpariaethau penodol presennol yn Neddf y Diwydiant Dŵr sy'n ymwneud â gofynion ariannol amrywiol y gall ymgwymerwr dŵr eu gosod yn gyfnewid am gyflawni ei ddyletswyddau neu ei rwymedigaethau ei hun o dan yr adrannau a ddiwygiwyd gan gymalau 18 (taliadau am ddarparu prif gyflenwad) a 19 (taliadau am ddarparu carthffos gyhoeddus) o'r Bil. Gall y rheolau gynnwys taliadau y gellir eu codi, a'r dulliau o'u cyfrifo, yn ogystal â darpariaeth ynglŷn â'r sicrwydd a all fod yn ofynnol. Mae'r cymal hwn yn rhoi pŵer cyfarwyddo i Ofwat, sy'n orfodadwy o dan adran 18 os cred Ofwat nad yw cwmni yn gweithredu yn unol â'r rheolau.
62. Mae'r cymal hwn hefyd yn cyflwyno adrannau 144ZB a 144ZC newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ofwat ymgynghori â phersonau perthnasol ynglŷn â'i rheolau ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru lunio canllawiau ar godi tâl i Ofwat ynglŷn â thaliadau ymgwymerwyr ar gyfer eu priod awdurdodaeth.

Cymal 18: Taliadau a godir am ddarparu prif gyflenwad

63. Mae'r cymal hwn yn gwneud sawl diwygiad i Ddeddf y Diwydiant Dŵr er mwyn caniatáu i'r rheolau ynglŷn â chodi tâl o dan yr adran 143B newydd (a fewnosodir gan gymal 16) fod yn sail ar gyfer codi taliadau am gysylltiadau newydd â system gyflenwi dŵr ymgwymerwr. Mae'r cymal yn diddymu darpariaethau ynglŷn â sicrwydd ar gyfer taliadau i'w gwneud, fel y gellir pennu'r rhain hefyd yn unol â'r rheolau ynglŷn â chodi tâl.

64. Mae'r cymal hwn hefyd yn gwneud newidiadau i amrywiol ddarpariaethau sy'n caniatáu i ymgwymerwr dŵr godi taliadau a gofyn am sicrwydd mewn perthynas ag adran 41 (dyletswydd i ddarparu pibell prif gyflenwad), adran 45 (dyletswydd i gysylltu â phibell prif gyflenwad) ac adran 46 (dyletswyddau i wneud gwaith ategol).

Cymal 19: Taliadau a godir am ddarparu carthffos gyhoeddus

65. Mae'r cymal hwn yn gwneud sawl diwygiad i Ddeddf y Diwydiant Dŵr er mwyn caniatáu i'r rheolau ynglŷn â chodi tâl o dan yr adran 143B newydd (a fewnosodir gan gymal 16) fod yn sail ar gyfer codi taliadau am gysylltiadau newydd â system garthffosiaeth ymgwymerwr. Mae'r cymal yn diddymu darpariaethau ynglŷn â sicrwydd ar gyfer taliadau i'w gwneud, fel y gellir pennu'r rhain hefyd yn unol â'r rheolau ynglŷn â chodi tâl. Mae'r cymal hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i bwerau Ofwat i wneud penderfyniadau o dan adran 30A (penderfyniadau ar anghydfodau gan y Cyfarwyddwr) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr mewn perthynas â thaliadau a godir a sicrwydd.

66. Mae is-adran (2) yn gwneud newidiadau i adran 99 (amodau ariannol cydymffurfiaeth) mewn perthynas â darpariaethau sy'n caniatáu i ymgwymerwr carthffosiaeth godi taliadau a gofyn am sicrwydd mewn perthynas ag adran 98 (dyletswydd i ddarparu carthffos neu draen ochrol) ac yn gwneud darpariaeth debyg yn adran 101B (pŵer i adeiladu draeniau diweddarach). Mae Atodlen 7, paragraff 80 o'r Bil yn diddymu adran 100 a 100A sy'n cynnwys dulliau o gyfrifo agweddau ar y taliadau a godir.

67. Mae is-adran (4) a (5) yn diwygio adran 107 (hawl ymgwymerwr carthffosiaeth i ymgymryd â chysylltu â charthffosydd cyhoeddus) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr. O dan yr adran 107(3)(b) bresennol nid oes angen i ymgwymerwr gysylltu nes bod y person sy'n gwneud cais am y cysylltiad hwnnw wedi talu neu wedi rhoi sicrwydd am amcangyfrif rhesymol o gostau. Mae'r diwygiadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r gost hon gael ei chyfrifo yn unol â'r rheolau ynglŷn â chodi tâl. Mae'n rhaid i unrhyw wahaniaeth rhwng y taliad cychwynnol hwn a'r tâl terfynol y caniateir ei godi o dan y rheolau ynglŷn â chodi tâl gael ei dalu neu ei ad-dalu fel y bo'n briodol.

Cymal 20: Taliadau a godir am symud pibellau

68. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 185 (dyletswydd i symud pibellau ac ati mewn achosion penodol) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr sy'n gosod dyletswydd ar ymgwymerwr perthnasol i symud pibellau mewn achosion penodol. Mae is-adran (5) yn galluogi'r ymgwymerwr i adennill treuliau yr eir iddynt yn rhesymol wrth gynnal y gwaith oddi wrth y person a ofynnodd am i'r gwaith gael ei wneud. Mae'r cymal yn diwygio is-adran (5) fel bod yn rhaid i'r person a ofynnodd am i'r gwaith gael ei wneud dalu unrhyw

daliadau i'r ymgwymerwr y mae'r ymgwymerwr yn eu codi yn unol â'r rheolau ynglŷn â chodi tâl o dan adran 144ZA yn lle hynny.

Cymal 21: Systemau draenio sy'n gollwng o garthffosydd cyhoeddus

69. Mae'r cymal hwn yn cyflwyno adran 114A newydd o Ddeddf y Diwydiant Dŵr i roi'r pŵer i ymgwymerwyr carthffosiaeth adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu systemau draenio at ddiben lleihau faint o ddŵr ffo sy'n mynd i mewn i garthffosydd cyhoeddus neu arafu llif y dŵr ffo i mewn i garthffosydd cyhoeddus. Mae Systemau Draenio Cynaliadwy yn dechreg sy'n rheoli dŵr wyneb a dŵr daear yn sylweddol. Yr amcanion allweddol yw rheoli llif dŵr a chyfaint y dŵr wyneb i leihau perygl llifogydd a llygredd dŵr. Mae SDCau hefyd yn lleihau pwysau ar y rhwydwaith carthffosiaeth a gallant wella bioamrywiaeth ac amwynder lleol. Drwy ddyngwared cyfundrefnau draenio naturiol nod SDCau yw lleihau llifogydd oherwydd dŵr wyneb, gwella ansawdd dŵr a gwella gwerth amwynder a bioamrywiaeth yr amgylchedd. Mae SDCau yn cyflawni hyn drwy arafu llif dŵr, gwella'r gallu i storio dŵr a lleihau faint o lygredd a drosglwyddir i'r amgylchedd dŵr.
70. O ran draenio dŵr wyneb mae SDCau yn ceisio dynwared prosesau naturiol o ran y ffordd y rheolir dŵr glaw sy'n disgyn ar safle. Mae'r prosesau naturiol hyn yn cynnwys ymdreiddio, lle mae amodau'r pridd yn ei gwneud yn bosibl i'r dŵr gael ei amsugno, arafu, lle caiff y llif ei arafu wrth iddo redeg o'r safle a glanhau dŵr drwy ddyddodi a hidlo solidau a dadelfennu mater organig gan ficro-organebau. Systemau â llystyfiant ar yr wyneb yw'r systemau datblygu cynaliadwy mwyaf amlwg ac effeithiol ac maent yn rhoi cyfleoedd i brosesau anweddu a thrydarthu leihau faint o ddŵr sy'n mynd i mewn i'r systemau draenio i lawr y system. Gall SDCau gydbwysu'r lleihad mewn perygl llifogydd i'r safle dan sylw â diogelu ansawdd dŵr a darparu manteision amwynder a chynffwrdd.
71. Mae'r llifogydd mawr yn ddiweddar wedi dangos na all y systemau draenio presennol ymdopi mwyach â faint o ddŵr a geir yn ystod glawiad. Ni all y sefyllfa barhau fel y mae ac mae bellach yn hanfodol gwneud pethau'n wahanol o ran rheoli dŵr wyneb, yn enwedig os ydym am ymaddasu at hinsawdd sy'n newid a diogelu afonydd a thraethau rhag llygredd. Bydd y cymal hwn yn rhoi'r pŵer i'r ymgwymerwyr carthffosiaeth adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu systemau draenio cynaliadwy.
72. Mae'r cymal hefyd yn eithrio systemau draenio a adeiladwyd o dan y cymal rhag y ddyletswydd mabwysiadu a osodir gan Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

PENNOD 3 – Rheoleiddio'r diwydiant dŵr (Cymalau 22-38 ac Atodlen 6)

73. Mae'r Bennod hon yn canolbwyntio ar reoleiddio'r diwydiant dŵr (dyletswyddau cyffredinol ar Ofwat a rheoliadau ymgwymerwyr perthnasol, trwyddedeion cyflenwi dŵr a thrwyddedeion carthffosiaeth), apelio yn

erbyn codau, swyddogaethau dyfarnu a phwerau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i godi tâl.

74. Mae'r mesurau hyn yn diwygio'r dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â'r diwydiant dŵr. Mae'r rhain yn gymwys i'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru ac Ofwat. Mae dyletswydd sylfaenol newydd i sicrhau gallu'r systemau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth i wrthsefyll pwysau amgylcheddol, twf poblogaeth a newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr yn yr hirdymor. Mae dyletswydd newydd hefyd i sicrhau nad yw ymgwymerwyr yn dangos ffafriaeth amhriodol na gwahaniaethu amhriodol wrth ymwneud ag ymgwymerwyr a thrwyddedeion eraill. Yn ogystal, mae'r Bil yn creu pŵer newydd i ganiatáu i un datganiad cyfunol am flaenoriaethau ac amcanion strategol Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru gael ei baratoi i'w ddilyn gan Ofwat wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol.
75. Er mwyn cefnogi'r diwygiadau hyn, mae'r Bil yn rhoi pwerau i Ofwat reoleiddio'r farchnad dŵr a charthffosiaeth.
76. Ceir mesur hefyd i leihau pa mor aml y mae'n ofynnol i ymgwymerwyr lunio cynlluniau sychder i gylch pum mlynedd ar y mwyaf. Bydd hyn yn helpu i leihau'r baich gweinyddol ar ymgwymerwyr dŵr a sicrhau bod cylch y cynlluniau sychder yn unol â chylch y Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr. Os bydd angen, gall yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gymell ymgwymerwyr dŵr i baratoi cynllun sychder yn amlach.
77. Mae'r Bil yn cynnwys mesur newydd sy'n diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr er mwyn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ar gyfer apeliadau i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn erbyn penderfyniad Ofwat i ddiwygio cod dynodedig neu beidio â'i ddiwygio ar ôl ymgynghori ynglŷn â diwygiad arfaethedig. Mae pŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru nodi partïon amgen i gyflawni rhai o gyfrifoldebau dyfarnu Ofwat. Bwriedir i hyn ei gwneud yn bosibl i anghydfodau gael eu datrys mewn modd amserol.
78. Mae diwygiad hefyd i Ddeddf y Diwydiant Dŵr er mwyn galluogi Arolygiaeth Dŵr Yfed Cymru godi ffioedd am gost ei gweithgareddau rheoleiddio ar ôl 2017. Mae hyn yn disodli pŵer tebyg yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Bydd hyn hefyd yn galluogi Arolygiaeth Dŵr Yfed Cymru i addasu ei ffioedd ac mae'n unol â pholisi Llywodraeth y DU mai busnesau sy'n cael budd o reoleiddio ddylai dalu'r costau, nid y trethdalwr.
79. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau canlynol (cymalau 22 – 26, 28, 31 – 34, 36 - 38 ac Atodlen 6) yn dod o dan gymhwysedd cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â chyflenwi dŵr, ansawdd dŵr, rheoli adnoddau dŵr, rheoleiddio ymgwymerwyr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a rheoleiddio gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio system gyflenwi ymgwymerwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru o dan baragraff 19 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth

Cymru 2006. Disgrifir cymalau 22, 23, 24, 25, 26, 28, 31, 32, 33, 34, 36, 37 38 ac Atodlen 6 ymhellach isod.

Cymal 22: Prif ddyletswydd i sicrhau'r gallu i wrthsefyll

80. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 2 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr sy'n nodi 'dyletswyddau cyffredinol mewn perthynas â'r diwydiant dŵr'. Mae'r dyletswyddau hyn yn gymwys i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ac i Ofwat wrth arfer eu cyfrifoldebau rheoleiddio perthnasol. Mae'r cymal hwn yn cyflwyno dyletswydd newydd, sef gwella gallu'r diwydiant dŵr i wrthsefyll.
81. Mae is-adran 2DA(a) yn esbonio mai'r amcan gwrthsefyll yw sicrhau gallu'r systemau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth i wrthsefyll pwysau amgylcheddol, twf poblogaeth a newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr yn yr hirdymor.
82. Mae is-adran 2DA(b) yn esbonio mai'r amcan gwrthsefyll yw sicrhau bod ymgwymerwyr yn cymryd camau nawr ac yn y dyfodol i sicrhau gallu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth i ddefnyddwyr i wrthsefyll yn yr hirdymor.
83. Mae'r cymal hwn yn egluro y gall y camau a gymerir i sicrhau'r gallu i wrthsefyll gynnwys, ymhlith pethau eraill, hyrwyddo gwaith cynllunio hirdymor a buddsoddi priodol; a'r holl fesurau priodol i reoli adnoddau dŵr a sicrhau draenio effeithiol. Er enghraifft, gweithgareddau perthnasol i leihau galw defnyddwyr a sicrhau bod adnoddau dŵr yn cael eu rheoli'n effeithiol o fewn y rhwydwaith ac yn yr amgylchedd dŵr ehangach.

Cymal 23: Dyletswydd gyffredinol o ran ffafriaeth amhriodol wrth ddarparu gwasanaethau

84. Mae'r cymal hwn yn mewnosod is-adran (ba) i adran 2(3) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr sy'n gosod dyletswydd gyffredinol ar yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru ac Ofwat i gyflawni eu swyddogaethau gyda'r nod o sicrhau nad yw ymgwymerwyr yn dangos unrhyw ffafriaeth amhriodol na gwahaniaethu amhriodol o blaid eu busnes manwerthu eu hunain, trwyddedeion cysylltiedig nac ymgwymerwyr eraill wrth ddarparu gwasanaethau i drwyddedeion, penodeion mewnosod neu ymgwymerwyr eraill.
85. Gallai ymgwymerwr ddangos ffafriaeth amhriodol, er enghraifft lle mae'n blaenoriaethu ymholiadau gan ei gwsmeriaid terfynol ei hun neu gan is-drwyddedai dros y rhai gan drwyddedeion neu ymgwymerwyr eraill. Gallai gwahaniaethu amhriodol gynnwys ymgwymerwr yn gosod gofynion gwahanol ynglŷn â gwybodaeth ar drwyddedeion nad ydynt yn gysylltiedig neu ymgwymerwyr eraill na fyddai fel arfer yn gofyn i'w fusnes manwerthu neu ei is-drwyddedai eu bodloni. Byddai hyn i bob diben yn rhoi mantais gystadleuol i fuddiannau busnes yr ymgwymerwr ei hun dros eraill sy'n gweithredu yn yr un farchnad.

Cymal 24: Blaenoriaethau ac amcanion strategol

86. Mae'r cymal hwn yn disodli'r adran 2A bresennol (Canllawiau ar faterion cymdeithasol ac amgylcheddol) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr ac yn rhoi pŵer newydd sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion strategol i Ofwat mewn perthynas ag ymgwymerwyr y mae ardaloedd eu penodiad yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas ag ymgwymerwyr y mae ardaloedd eu penodiad yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.
87. Ar hyn o bryd, adran 2A sy'n darparu'r pŵer y cyhoeddir Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol i Ofwat yn unol ag ef; mae'n rhaid i Ofwat ystyried y canllawiau hyn. Cadarnhaodd yr adrannau 2A a 2B newydd fod yn rhaid i Ofwat gyflawni ei swyddogaethau perthnasol yn unol â'r datganiad a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol.
88. Mae'r cymal yn creu pŵer newydd sy'n caniatáu i un datganiad cyfunol am flaenoriaethau'r Llywodraeth i Ofwat gael ei baratoi. Bydd hyn yn caniatáu ailadrodd y Datganiadau Polisi Strategol presennol sy'n ymgorffori Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol i'w paratoi gan ddefnyddio un pŵer.
89. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried dyletswyddau Ofwat o dan adran 2 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr wrth baratoi'r datganiad. Yn eu plith mae'r canlynol:
- diogelu cwsmeriaid
 - ystyried buddiannau grŵp sy'n agored i niwed
 - sicrhau bod swyddogaethau cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn cael eu cyflawni'n briodol ac y gall y cwmnïau ariannu'r swyddogaethau hynny
 - hyrwyddo'r amcan gwrthsefyll
 - cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy
90. Mae'r cymal hefyd yn nodi y gall Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried materion cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol nodi blaenoriaethau ac amcanion strategol i Ofwat ar y materion a gwmpaswyd gan y Canllawiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol gynt.
91. Mae'r cymal yn darparu ar gyfer diwygio adran 192A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr fel y bydd angen i Ofwat gynnwys yn ei blaenraglen waith esboniad o'r ffordd y mae prosiectau a gynhwysir ynddo yn adlewyrchu blaenoriaethau ac amcanion a gyhoeddir o dan adran 2A neu 2B.

Cymal 25: Gweithdrefnau ar gyfer rhoi trwyddedau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth

92. Mae'r cymal hwn yn disodli adran 17F (Gweithdrefn ar gyfer rhoi trwyddedau cyflenwi dŵr) ac yn ei lle mae'n rhoi darpariaethau newydd ynglŷn â gweithdrefn Ofwat ar gyfer rhoi trwyddedau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth. Ar hyn o bryd nodir y weithdrefn ar gyfer rhoi trwyddedau cyflenwi dŵr mewn rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol. O dan y darpariaethau newydd, bydd Ofwat yn pennu'r weithdrefn, gan gynnwys unrhyw ffioedd sy'n daladwy, ac yn ei chyhoeddi. Bydd y cymal hwn hefyd yn dirymu gofyniad ar ymgeiswyr sy'n dymuno gwneud cais am drwydded i gyhoeddi hysbysiad o'u cais.

Cymal 26: Ymestyn terfyn amser ar gyfer rhoi cosbau ariannol

93. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 22C (Terfyn amser ar roi cosbau ariannol) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr drwy gynyddu'r terfyn o ddeuddeg mis i bum mlynedd i'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru neu Ofwat roi cosb ariannol sifil ar ymgymerwr neu drwyddedai am achos hanesyddol o dorri amod penodiad neu drwydded neu rwymedigaeth statudol berthnasol. Mae'n aros yr un fath nad yw'r terfyn amser ar gyfer rhoi cosb yn gymwys os cyflwynwyd hysbysiad ffurfiol i'r person y bwriedir rhoi cosb iddo, cyn diwedd cyfnod y terfyn. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau nad yw'r terfyn amser estynedig yn gymwys i dor-amod sy'n digwydd cyn i'r cymal ddod i rym.

Cymal 28: Amllder cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a chynlluniau sychder

94. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 39B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr i newid amllder cynlluniau sychder i gylch o bum mlynedd ar y mwyaf yn unol â chynlluniau rheoli adnoddau dŵr. Lle mae dyletswydd i baratoi cynllun diwygiedig o fewn y terfyn amser o bum mlynedd, golyga hyn fod yn rhaid i'r cynllun diwygiedig gael ei baratoi a'i gyhoeddi o fewn y pum mlynedd (yn unol â'r weithdrefn yn adran 37B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr).

95. Mae'r cynnal yn mewnosod is-adrannau (4) i (9) newydd yn adran 37D er mwyn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag ymgymerwyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, neu Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ymgymerwyr sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, er mwyn diwygio'r terfynau amser cynllunio ar gyfer cynlluniau rheoli adnoddau dŵr. Dim ond drwy orchymyn gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad negyddol y gellir gwneud hyn. Gall pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol a phwerau Gweinidogion Cymru yma gael eu harfer yn yr un offeryn statudol. Mae'r adran 39D newydd yn gwneud yr un trefniadau ar gyfer cynlluniau sychder.

Cymal 31: Hysbysiad o gytundebau o fewn adran 142(2)(b)

96. Mae'r cymal hwn yn ychwanegu is-adrannau (6A) a (6B) newydd i adran 142 (pwerau ymgymerwyr i godi tâl) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr. Bydd yn ofynnol i ymgymerwr hysbysu Ofwat pan fydd yn llunio cytundeb codi tâl

unigol â chwsmer nas cwmpeisir gan gynllun codi tâl. Mae'r cyfryw gytundebau yn tueddu i gael eu llunio rhwng ymgymerywyr a defnyddwyr dŵr mawr ond gallent hefyd gael eu llunio ar gyfer unrhyw drefniadau nas cwmpeisir gan gynlluniau codi tâl ymgymerywyr. Bydd y gofyniad adrodd hwn yn orfodadwy gan Ofwat o dan ei bwerau adran 18. Mae'r cymal hefyd yn diwygio adran 195 (cofrestr y Cyfarwyddwr) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr i'w gwneud yn ofynnol i'r cyfryw wybodaeth hysbysedig gael ei chynnwys ar gofrestr Ofwat, i'r cyhoedd ei harchwilio, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru, er enghraifft, mewn perthynas â gwybodaeth fasnachol sensitif.

Cymal 32: Cofrestr sy'n ymwneud ag ymgymerywyr a thrwyddedeion

97. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 195 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Ofwat gofnodi gwybodaeth ar ei chofrestr o weithredoedd rheoleiddio. Mae'n ofynnol i Ofwat gyhoeddi hysbysiadau o unrhyw gytundebau er mwyn lleihau taliadau cyfanwerthu mewn perthynas â swmpgyflenwi, trefniadau prif gysylltiadau, a threfniadau trwyddedu cyflenwi a charthffosiaeth.

Cymal 33: Gweithredu'r gofrestr

98. Mae'r cymal hwn yn disodli adrannau 195(4) a (6) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr ac yn rhoi yn eu lle is-adrannau (4) i (4B) sy'n dileu pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i gyhoeddi gorchymyn sy'n amlinellu'r adegau pan fydd yn rhaid sicrhau bod cofrestr Ofwat o gamau gweithredu rheoleiddio ar gael i'w harchwilio a'r ffioedd sy'n daladwy i Ofwat am unrhyw gopiâu o'r papurau a geir yn y gofrestr. Yn lle hynny mae'n rhaid i Ofwat gyhoeddi hysbysiad sy'n amlinellu'r wybodaeth hon.

Cymal 34: Cael gwybodaeth at ddibenion gorfodi

99. Mae'r cymal hwn yn diwygio adran 203 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr i ymestyn y pwerau cyfredol i fynnu gwybodaeth. O dan yr adran 203 bresennol gall y Gweinidog priodol ac Ofwat fynnu gwybodaeth gan unrhyw berson ynglŷn ag achosion posibl o dor-amod gan ymgymerywyr dŵr a charthffosiaeth mewn perthynas ag amodau eu penodiad a'u trwydded hwy neu benodiad a thrwydded eraill neu ofynion statudol eraill sy'n orfodadwy o dan adran 18 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr.

100. Mae'r cynnal hwn ymestyn y pynciau y gall Ofwat a'r Gweinidog fynnu gwybodaeth yn eu cylch, i sefyllfaoedd lle mae ymgymerywyr yn achosi neu'n cyfrannu at dor-amod gan ymgymerywyr arall, neu lle mae trwyddedai yn achosi neu'n cyfrannu at dor-amod gan drwyddedai arall mewn perthynas ag amodau penodiad neu drwydded neu ofynion statudol eraill sy'n orfodadwy o dan adran 18 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr. Gellir hefyd fynnu gwybodaeth am gydymffurfiaeth ymgymerywyr a thrwyddedeion â safonau perfformiad penodedig mewn perthynas â gwasanaethau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth mewn achosion unigol.

Cymal 36: Canllawiau ar reolau ynglŷn â chodi tâl

101. Mae'r cymal hwn yn mewnosod adrannau 144ZD a 144ZE newydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr sy'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gyhoeddi a diwygio canllawiau lefel uchel mewn perthynas â rheolau Ofwat ynglŷn â chodi tâl a wneir o dan y Bil. Mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad priodol ar y canllawiau ac mae'n rhaid eu gosod gerbron y Senedd neu, os yw'n briodol, y Cynulliad. Drwy hyn gall y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru graffu ar ymagwedd y llywodraethau perthnasol tuag at ganllawiau ar godi tâl i Ofwat a phenderfynu, o fewn cyfnod o 40 diwrnod, na ddylid cyhoeddi'r canllawiau.

Cymal 37: Arfer swyddogaethau dyfarnu gan bersonau eraill

102. Mae'r cymal hwn yn creu pŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â swyddogaethau dyfarnu Ofwat. Ar hyn o bryd, mae Deddf y Diwydiant Dŵr yn nodi nifer o faterion y mae gan Ofwat ddyletswydd statudol i wneud penderfyniad ffurfiol yn eu cylch mewn achosion o anghydfod rhwng cwsmeriaid a'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth. Mae hyn yn cwmpasu cwsmeriaid terfynol, partïon sydd am gael cysylltiadau â charthffos neu brif gyflenwad dŵr, partïon sy'n gwneud cais am ganiatâd i ollwng elifion masnach neu sy'n ceisio newid caniatâd; a phartïon y mae ganddynt gŵyn ynglŷn ag arfer pwerau gweithio ar dir preifat.

103. Mae'r cymal hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud orchymyn sy'n caniatáu i unrhyw un o'r swyddogaethau perthnasol gael ei chyflawni gan barti penodedig heblaw Ofwat; neu gan Ofwat neu barti arall yn ôl disgrisiwn Ofwat. Nodir y swyddogaethau perthnasol yn is-adran (4) sy'n egluro bod y pŵer hwn yn cwmpasu swyddogaethau penodedig ac nad ydynt yn ymestyn pwerau gorfodi Ofwat o dan adran 18 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr.

104. Bydd y cymal hwn yn galluogi cyflwyno mwy o hyblygrwydd i'r system ar gyfer datrys anghydfod er mwyn galluogi datrys anghydfodau cyffredin mewn modd amserol a chaniatáu datblygu arbenigedd mewn perthynas â dosbarthiadau penodol o anghydfod. Bydd Ofwat yn parhau i fod yn gyfrifol am bennu'r fframwaith rheoleiddio hwn y cyflawnir y swyddogaethau dyfarnu oddi mewn iddo. Mae is-adran (2) yn darparu y gall y gorchymyn ei gwneud yn ofynnol i Ofwat baratoi canllawiau ynglŷn â sut mae'n rhaid i ddyfarnwr arfer y swyddogaeth berthnasol. Mae hefyd yn darparu y gall fod yn ofynnol i'r person sy'n arfer y swyddogaeth ystyried unrhyw ganllawiau y mae Ofwat ei hun yn ddarostyngedig iddynt.

Cymal 38: Codi ffioedd gan aseswyr am orfodi ansawdd dŵr

105. Mae is-adran (1) o'r cymal hwn yn mewnosod adran 86A newydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr sy'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi pŵer i'r Prif Arolygydd Yfed Dŵr godi ffioedd am

gostau'r gweithgareddau rheoleiddio y mae'r Arolygiaeth Yfed Dŵr yn ymgymryd â hwy gan gwmnïau dŵr. Mae'n disodli pŵer tebyg a roddir gan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 ac iddo derfyn amser i'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd y pwerau yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn cael eu diddymu gan y cymal hwn.

Atodlen 6: Gweithdrefn ar apelïadau o dan adran 207A o Deddf Diwydiant Dŵr 1991

106. Mae'r Atodlen hon yn mewnosod Atodlen 16 newydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr sy'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu ar gyfer gweithdrefn ar apelïadau o dan yr adran 207A newydd i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Mae'r Atodlen yn nodi materion y gellir darparu ar eu cyfer mewn Rheoliadau er mwyn cynnwys materion megis caniatâd i apelïo, ystyried a phenderfynu ar apelïadau, tystiolaeth a rheolau apelïo.

PENNOD 4: Atodol (cymalau 39-40 ac Atodlen 7)

107. Mae'r Bennod hon yn canolbwyntio ar addasu amodau penodiadau a thrwyddedau ac yn cyflwyno Atodlen sy'n cynnwys diwygiadau pellach.

108. Mae'r prif amod yn darparu pŵer newydd sy'n caniatáu i Ofwat, am gyfnod cyfyngedig, wneud newidiadau i amodau penodi ymgymeryr ac amodau trwydded cyflenwyr dŵr er mwyn gweithredu diwygiadau'r Bil. Ochr yn ochr â hyn, mae pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i Ofwat ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig.

109. Mae cymal pellach yn gweithredu Atodlen 7 i'r Bil, sy'n cwmpasu'r diwygiadau sy'n ganlyniadol i'r ddarpariaeth a wneir gan Ran 1 o'r Bil.

110. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau canlynol (Cymal 39 ac Atodlen 19) yn dod o dan gymhwysedd cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â chyflenwi dŵr rheoleiddio ymgymeryr dŵr yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio cyflenwad ymgymeryr dŵr y mae eu hardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru o dan baragraff 19 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Disgrifir cymal 39 ac Atodlen 7 ymhellach isod.

Cymal 39: Addasu amodau penodiadau a thrwyddedau

111. Mae'r cymal hwn yn darparu pŵer ac iddo derfyn amser i Ofwat wneud newidiadau i amodau penodi ymgymeryr ac amodau trwyddedau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth er mwyn gweithredu newidiadau a wneir yn y Bil hwn i'r gyfundrefn trwyddedu cyflenwi dŵr a charthffosiaeth. Cyn gwneud newidiadau, mae'n rhaid i Ofwat ymgynghori â deiliad y penodiad neu'r drwydded, yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru a phersonau priodol eraill.

112. Mae is-adrannau (8) a (12) yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i Ofwat er mwyn sicrhau bod amodau penodiadau ac amodau trwyddedau yn cael eu haddasu er mwyn gweithredu'r newidiadau yn y Bil. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru hefyd gyfarwyddo Ofwat i beidio â gwneud newidiadau arfaethedig i amodau neu drwyddedau.

Atodlen 7: Diwygiadau pellach

113. Mae'r Atodlen hon yn gwneud mân newidiadau canlyniadol i Ddeddf y Diwydiant Dŵr yn bennaf i weithredu'r darpariaethau newydd mewn perthynas â thrwyddedeion cyflenwi dŵr a thrwyddedeion carthffosiaeth. Mae hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau canlyniadol i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 i weithredu cymal 16 ynglŷn â chynlluniau codi tâl. Nid yw Atodlen 7 yn cynnwys y diwygiadau canlyniadol ar gyfer Rhannau 4 i 8 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr y mae angen eu gwneud i adlewyrchu'r drefn drwyddedu newydd y darperir ar ei chyfer yng nghymalau 1 i 4.

114. Mae llawer o'r darpariaethau yn yr Atodlen hon yn disodli cyfeiriadau at "cyflenwyr dŵr trwyddedig" ac yn rhoi yn eu lle gyfeiriadau at "trwyddedeion cyflenwi dŵr" neu "trwyddedeion carthffosiaeth" (neu awdurdodiadau penodol a roddir i'r cyfryw drwyddedeion) fel y bo'n briodol. Mae darpariaethau eraill yn yr Atodlen hon yn disodli cyfeiriadau at "cwmnïau" ac yn rhoi yn eu lle gyfeiriad at "personau" er mwyn gweithredu'r polisi y gall deiliaid awdurdodiadau manwerthu fod yn anghorfforedig.

115. Mae paragraff 2, ymhlith pethau eraill, yn ymestyn dyletswydd Ofwat, yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn adran 2 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr i arfer eu priod swyddogaethau o dan adrannau newydd perthnasol a fewnosodir gan y Bil.

116. Mae paragraff 6 i 21 yn ymestyn cymhwyso'r adrannau ym mhennod 1A o Ran 2 i Ddeddf y Diwydiant Dŵr. Maent yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r mathau newydd o awdurdodiadau sydd ar gael i drwyddedeion cyflenwi dŵr ac mewn perthynas â thrwyddedeion carthffosiaeth.

117. Mae paragraff 22 i 34 yn diwygio'r darpariaethau gorfodi yn Neddf y Diwydiant Dŵr gan gynnwys ymestyn y gyfundrefn weinyddu arbennig i unrhyw achos o symud mater gan drwyddedai carthffosiaeth cymwys sydd wedi'i ddynodi'n ddarpariaeth carthffosiaeth strategol (fel y darperir ar ei gyfer o dan adrannau 117M ac 117N newydd). Mae hyn yn sicrhau y gall gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth hanfodol a ddarperir i safleoedd barhau os bydd deiliaid yr awdurdodiadau perthnasol yn mynd yn ansolfent neu fel arall yn methu â chyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

RHAN 2 – ADNODDAU DŴR

118. Mae'r rhan hon o'r Bil yn canolbwyntio ar adnoddau dŵr ac yn cynnwys atal iawndal i ymgwymerwyr dŵr, mapiau o'r prif afonydd yng Nghymru a Lloegr a mapiau gweithfeydd dŵr Asiantaeth yr Amgylchedd/Corff Cyfoeth Naturiol Cymru.
119. Mae'r Bil yn cefnogi egwyddor adfer tynnu dŵr yn gynaliadwy. Mae'n dileu gallu ymgwymerwyr i hawlio iawndal am golledion o ganlyniad i addasu a diddymu eu trwyddedau tynnu dŵr. Yn lle hynny, bydd ymgwymerwyr yn ystyried gostyngiadau oherwydd cynaliadwyedd fel rhan o'u prif broses cynllunio busnes, ac adfer y costau drwy broses Adolygiad Ofwat o Brisiau.
120. Ceir diwygiad hefyd i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 drosglwyddo cyfrifoldeb, oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr ac o Weinidogion Cymru i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru, am gynnal mapiau o'r prif afonydd yng Nghymru a Lloegr, a'i gwneud yn ofynnol i'r map gael ei gadw ar ffurf electronig. Ceir darpariaethau hefyd ynglŷn â diwygiadau i'r mapiau hyn, ymgynghori ar fapiau newydd a'r hawl i gael copïau am ddim.
121. Mae'r Bil hefyd yn diddymu rhan o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr sy'n diddymu'r ddyletswydd ar Asiantaeth yr Amgylchedd/Corff Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal cofrestr gyhoeddus o fapiau sy'n dangos y pibellau a'r gweithfeydd dŵr a ddelir ganddi/ganddo.
122. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau canlynol (cymalau 41, 42 a 43) yn dod o dan gymhwysedd cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â chyflenwi dŵr, rheoli adnoddau dŵr, rheoleiddio ymgwymerwyr dŵr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, diogelu'r amgylchedd a rheoli perygl llifogydd o dan baragraffau 6 a 19 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Disgrifir cymalau 41, 42 a 43 ymhellach isod.

Cymal 41: Atal iawndal i ymgwymerwyr dŵr

123. Mae'r cymal hwn yn addasu adran 61 o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr (iawndal lle mae trwydded wedi'i haddasu yn unol â chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru) er mwyn dileu hawl ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth i gael iawndal pan fydd trwyddedau tynnu neu gronni dŵr yn cael eu diddymu neu eu newid gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru o dan adran 54 (yn dilyn cynigion gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru) neu adran 56 (yn dilyn cais gan berchennog hawliau pysgota).

Cymal 42: Prif afonydd yng Nghymru a Lloegr

124. Mae'r cymal hwn yn diwygio darpariaethau ar gyfer pennu a chynnal mapiau o'r prif afonydd, gan ddisodli adran 193 a 194 o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr. Dynodir prif afonydd drwy gael eu nodi fel y cyfryw ar fap o'r prif afonydd. Pennir swyddogaethau rheoli perygl llifogydd mewn perthynas â'r math o gwrs dŵr; mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr a Chorff Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau ar brif afon, mae Byrddau Draenio Mewnol yn gyfrifol am bob cwrs dŵr arall o fewn dosbarthau draenio mewnol ac mae'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn gyfrifol am y rhai y tu allan i ddosbarth draenio.
125. Mae'r adran 194 newydd yn trosglwyddo cyfrifoldeb am gynnal map o'r prif afonydd i Gymru oddi wrth Weinidogion Cymru i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r map gael ei gynnal ar ffurf electronig.
126. Mae adran 194A yn ei gwneud yn ofynnol i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau bod copïau o'r map ar gael i'r cyhoedd. Mae'r gofyniad presennol ar Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu copïau o'r mapiau perthnasol yn cael ei ymestyn i bob awdurdod rheoli risg (fel y'i diffinir gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010) ac awdurdodau mordwyaeth.
127. Bydd Corff Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu codi ffi ar eraill sydd am gael copïau o'r map/data; gellir codi ffi defnydd rhesymol ar y rhai sydd am aildefnyddio'r data ar sail fasnachol. Gellir codi ffi ar bob un arall i gwmpasu costau rhesymol.
128. Mae'r adran 194B newydd yn rhoi pŵer i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru ddiwygio'r map o'r prif afonydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n rhaid i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru wneud penderfyniad yn gyntaf o dan adran 194C, a dilyn y weithdrefn a nodir yn yr adran honno. Mae'n rhaid i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru ddiwygio'r map o'r prif afonydd os yw cynllun sy'n codi taliadau arbennig am waith draenio er mwyn gwella tir amaethyddol yn cael ei gyflwyno o dan adran 137 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, os bydd Corff Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud penderfyniad o dan adran 194C neu os bydd Gweinidogion Cymru yn ei gyfarwyddo felly o ganlyniad i apêl o dan yr adran 194D newydd.
129. Mae'r adran 194C newydd yn nodi'r amgylchiadau lle y gall Corff Cyfoeth Naturiol Cymru benderfynu bod cwrs dŵr yn brif afon neu'n rhan o brif afon, neu nad yw cwrs dŵr yn brif afon nac yn rhan o brif afon mwyach. Cyn gwneud penderfyniad mae'n rhaid i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru ymgynghori â phartïon â diddordeb ar unrhyw newid arfaethedig a chyhoeddi canlyniadau ei benderfyniad ar ôl ymgynghoriad o'r fath. Wrth ymgynghori mae'n ofynnol i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi hysbysiad ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig, a nodi sut y gellid eu gwrthwynebu, gan gynnwys terfynau amser ac unrhyw gyfyngiadau angenrheidiol ynglŷn â ffurf y gwrthwynebiadau. Bydd Corff Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu rhoi cyhoeddusrwydd i'w hysbysiad fel y bo'n briodol ym marn y Corff er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'r rhai yn yr ardal berthnasol fod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau, boed hyn ar wefan

Corff Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu mewn papurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal leol dan sylw.

130. Mae'r adran 194D newydd yn nodi proses apelio. Mae'n rhaid cyflwyno apêl o fewn 6 wythnos i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru wneud penderfyniad. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu caniatáu'r apêl, ei chaniatáu'n rhannol neu ei gwrthod, a chyfarwyddo Corff Cyfoeth Naturiol Cymru i gyhoeddi'r penderfyniad.
131. Mae'r adran 194E newydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru. Gall canllawiau o'r fath gynnwys meini prawf ynghylch a yw'n briodol i gwrs dŵr ddod yn brif afon a chanllawiau ynghylch pryd mae angen adolygu ffiniau, a gallant nodi'r meini prawf neu ganllawiau eraill y dylid eu dilyn wrth gynnig newid map o'r prif afonydd yn ogystal â phryd y dylid ymgynghori.
132. Mae'r adrannau 193 – 193E newydd yn ailadrodd i Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr a'r Ysgrifennydd Gwladol ddapariaethau adrannau 194 – 194E newydd i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru a Gweinidogion Cymru.

Cymal 43: Mapiau o weithfeydd dŵr

133. Mae'r cymal hwn yn diddymu adran 195 o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr gan ddiddymu'r ddyletswydd ar Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i gynnal cofnod o brif gyflenwadau adnoddau, pibellau gollwng a gweithfeydd tanddaearol arall y mae'n berchen arnynt. Mae'r is-adran (2) yn gwneud diwygiad canlyniadol i Atodlen 23 o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr er mwyn caniatáu ar gyfer y ffaith na fydd cofnodion o agweddau ar "ymgymeriad" Corff Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu cofnodi mwyach mewn mapiau a gedwir gan y Corff.

RHAN 3 – RHEOLEIDDIO AMGYLCHEDDOL

134. Mae'r rhan hon o'r Bil Dŵr yn canolbwyntio ar y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol a'r pŵer i gyfuno'r gofynion sy'n ymwneud â thrwyddedau tynnu a chronni dŵr, caniatadau amddiffynfeydd rhag llifogydd a chymeradwyaethau ysgolion pysgod yn y gyfundrefn honno. Mae'n cynnwys pwerau sy'n galluogi creu un set o reoliadau sy'n cwmpasu gofynion trwyddedau atal a rheoli llygredd presennol a rheoliadau newydd ar gyfer trwyddedau tynnu dŵr, caniatadau amddiffynfeydd rhag llifogydd a chymeradwyaethau ysgolion pysgod. Bydd y rheoliadau hyn yn galluogi gweithredwyr i wneud cais am un drwydded yn hytrach na sawl trwydded.
135. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau canlynol (cymalau 44, 45 a 46 ac Atodlen 8) yn dod o dan gymhwysedd cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â physgodfeydd, diogelu'r amgylchedd, rheoli perygl llifogydd, rheoli adnoddau dŵr a chyflenwi dŵr o dan baragraffau 1, 6 a 19 o Ran 1, Atodlen 7 i Lywodraeth

Cynulliad Cymru 2006. Disgrifir cymalau 44 – 46 ac Atodlen 8 ymhellach isod.

Cymal 44: Rheoleiddio'r amgylchedd dŵr

136. Mae'r cymal hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr ac mewn perthynas â'r cyfryw rannau o Afon Esk ag sydd yn yr Alban) a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru) i wneud rheoliadau ynglŷn â thrwyddedau tynnu a chronni dŵr, caniatadau amddiffynfeydd rhag llifogydd a gofynion ar gyfer ysgolion pysgod a sgriniau pysgod. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau wedi'i fodelu ar y pŵer yn y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol sengl a grëwyd o dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999. Gellir cyfuno rheoliadau o dan y cymal hwn â rheoliadau a wneir o dan y gyfundrefn honno er mwyn creu system gyffredin o reoleiddio amgylcheddol.
137. O dan Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd, mae gan Weinidogion bwerau i reoleiddio gweithgareddau llygru o dan un gyfundrefn. Fodd bynnag, nid oes ganddynt bŵer i roi trwyddedau tynnu a chronni dŵr, caniatadau amddiffynfeydd rhag llifogydd nac ysgolion pysgod yn y gyfundrefn honno, gan nad yw'r rhain yn ymwneud â llygru fel y'i diffinnir.
138. Bydd integreiddio'r cyfundrefnau trwyddedu a rheoleiddio ar gyfer tynnu dŵr, cronni dŵr, amddiffynfeydd rhag llifogydd ac ysgolion pysgod yn caniatáu i reoleiddwyr ddefnyddio un broses a fframwaith cydymffurfio cyffredin. Mae'r fframwaith yn caniatáu i wahanol lefelau o reolaeth gael eu cymhwyso at weithgarwch penodol, yn unol â'r risg e.e. trwyddedau pwrpasol; caniatadau neu eithriadau safonol rhag y gofyniad i ddal trwydded os bodlonir amodau penodedig.
139. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau at y diben a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 8. O dan is-adran (2), mae'n rhaid i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y cyfryw reoliadau gael eu gwneud ar gyfer rheoleiddio'r defnydd o adnoddau dŵr neu mewn cysylltiad â hynny; sicrhau draenio tir neu reoli perygl llifogydd; neu ddiogelu symudiad pysgod dŵr croyw a physgod symudol drwy ddyfroedd a reoleiddir. O dan is-adran (3), mae'n rhaid i Weinidogion ystyried lleihau beichiau drwy gyfuno rheoliadau a wneir o dan y cymal hwn â systemau ar gyfer rheoleiddio gweithgareddau sy'n achosi llygredd. Mae is-adran (4) yn rhoi pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori cyn gwneud unrhyw reoliadau. O dan is-adran (11), gall rheoliadau mewn perthynas â symudiad pysgod fod yn gymwys i'r cyfryw rannau o afon Esk y Goror a'i glannau a'i hisafonydd hyd at eu tarddiad ag sydd yn yr Alban, ac ni fydd yn gymwys i hydoedd isaf Afon Tuedd yn Lloegr ar sail y rhagdybiaeth y byddant yn cael eu rheoleiddio o dan gyfraith a wneir gan Weinidogion yr Alban. Yn hanesyddol, mae deddfwriaeth Lloegr ynglŷn â physgodfeydd eogiaid a physgodfeydd dŵr croyw wedi bod yn gymwys i Afon Esk a'i hisafonydd

sydd yn yr Alban yn ogystal â'i rhannau sydd yn Lloegr. I'r gwrthwyneb, mae deddfwriaeth yr Alban wedi bod yn gymwys i'r rhannau o Afon Tuedd sydd yn Lloegr yn ogystal â'r rhannau sydd yn yr Alban.

Cymal 45: Rheoleiddio amgylcheddol: gweithdrefn

140. Mae'r cymal hwn yn nodi'r broses seneddol y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ei dilyn wrth wneud rheoliadau o dan gymal 44. Mae is-adran (4) yn sicrhau bod y rheoliadau cyntaf a weir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a chan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Bydd unrhyw reoliadau dilynol sy'n creu trosedd neu sy'n cynyddu cosb am drosedd bresennol neu sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddarpariaeth o dan ddeddfwriaeth sylfaenol, hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Ac eithrio o dan yr amgylchiadau hyn, bydd rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol oni bai bod is-adran (5) a (6) yn berthnasol am fod yr offeryn statudol sy'n cael ei wneud yn cynnwys rheoliadau a weir o dan gymal 44 o'r Bil hwn ac adran 2 o'r Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd.
141. Mae is-adrannau (5) a (6) yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r weithdrefn a fydd yn gymwys os bydd rheoliadau a weir o dan gymal 45 yn cael eu cyfuno â rheoliadau a weir o dan adran 2 o'r Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd. Mae is-adran (13) yn mewnosod darpariaeth yn y Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd sy'n cyfeirio at gymal 45 o'r Bil hwn er mwyn sicrhau y cyfeirir at y gofyniad hwn yn y Ddeddf honno.
142. Mae is-adrannau (9) a (12) yn nodi'r gweithdrefnau perthnasol ar gyfer offerynnau statudol sy'n cyfuno rheoliadau a weir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan gymal 46 â rheoliadau a weir gan Weinidogion Cymru o dan y cymal hwnnw.

Cymal 46: Diddymu darpariaethau penodol ynglŷn â chwlfertau

143. Mae'r cymal hwn yn diddymu adrannau 262 a 263 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936.
144. Mae adran 262 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol ei gwneud yn ofynnol i droi cyrsiau dŵr a ffosydd yn gwlfertau lle y cynigir gweithrediadau adeiladu. Cyflwynwyd adran 262 i ganiatáu i gyrsiau dŵr gael eu gorchuddio fel na fyddent yn achosi problemau iechyd. Y dull gweithredu erbyn hyn yw mynd i'r afael â'r llygredd yn hytrach na gorchuddio'r cwrs dŵr. At hynny, mae Corff Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd yn annog peidio â chreu cwlfertau gan nad yw hynny'n gyson â dŵr wyneb yn llifo ymaith yn dda.
145. O dan adran 263 ni ellir troi cyrsiau dŵr mewn ardaloedd trefol yn gwlfertau ac eithrio'n unol â chynlluniau a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol.

146. Mae adran 23 o Ddeddf Draenio Tir 1991 ac adran 109 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 yn ei gwneud yn ofynnol i berchenogion/deiliad sydd am godi neu newid argae melin, cored neu rwystr tebyg i gwrs dŵr, neu godi neu newid unrhyw gwlfert geisio caniatâd ymlaen llaw gan yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, y Bwrdd Draenio Mewnol perthnasol neu Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru yn dibynnu ar leoliad y gwaith arfaethedig. Ar y cyd ag adran 263 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 mae'r darpariaethau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog/deiliaid wneud cais am ganiatadau cyfochrog gan nifer o gyrff. Mae adran 263 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 yn cael ei diddymu er mwyn dileu'r gofyniad ar gyfer caniatadau cyfochrog.

Atodlen 8: Rheoleiddio'r amgylchedd dŵr

147. Mae'r dibenion y gellir gwneud rheoliadau o dan gymal 44 yn eu cylch yn dilyn yn fanwl y dibenion y gellir gwneud rheoliadau trwyddedu amgylcheddol o dan y Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd yn eu cylch. Bydd hyn yn galluogi creu un system o reoleiddio amgylcheddol, sy'n cyfuno rheoliadau o dan gymal 44 â rheoliadau o dan y Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd a gofynion gweithdrefnol cyffredin. Mae Atodlen 8 yn darparu, er enghraifft, y gellir defnyddio'r pŵer i wneud rheoliadau yng nghymal 44 i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cynnal gweithgareddau penodedig ddal trwyddedau (paragraff 6); y gall y trwyddedau hynny gynnwys amodau (paragraff 8 a 35) sydd i'w hadolygu gan y rheoleiddiwr (paragraff 9); y gall rheoleiddwyr gymryd camau gorfodi mewn perthynas â deiliaid trwyddedau ac fel arall (yn bennaf paragraffau 13 i 16 ac 20 i 25); y gellir creu troseddau (megis methiant i gydymffurfio ag amodau trwydded) (paragraffau 26 a 37); ac ar gyfer hawl i apelio (paragraff 29).

148. O dan y cyfundrefnau presennol, bydd ffioedd yn daladwy i reoleiddwyr mewn perthynas ag arfer rhai o'u swyddogaethau (er enghraifft, mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau, rhoi trwydded a newid amodau trwydded) (paragraffau 11, 12 a 36).

149. Mae paragraff 30 yn galluogi rheoliadau o dan gymal 44 i wneud darpariaeth sy'n debyg i ddeddfwriaeth bresennol benodedig. Felly, er enghraifft bydd paragraff 30(1) yn caniatáu i ddarpariaeth gael ei gwneud sy'n cyfateb i ddarpariaeth a wneir gan neu o dan adran 71 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr (dŵr o ffynonellau dŵr) neu y gellir ei gwneud o dan adran 71 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr (dŵr o ffynonellau dŵr) neu sy'n debyg i'r cyfryw ddarpariaeth. Pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr (tynnu a chronni dŵr). Gall unrhyw ddeddfwriaeth bresennol a ailadroddir yn y rheoliadau yn y modd hwn gael ei diddymu o dan gymal 44.

150. Mae paragraff 37 yn caniatáu i'r rheoliadau wneud darpariaeth ar gyfer troseddau y gellir rhoi troseddwr ar brawf diannod yn unig neu ar brawf diannod neu drwy ddiad yn eu cylch.

151. Mae is-baragraff (6) yn caniatáu gwneud rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer troseddau y gellir eu cosbi drwy ddiad er mwyn darparu ar gyfer tymor o garchar nad yw'n fwy na'r cyfnod a bennir yn y rheoliadau neu uchafswm o ddwy flynedd neu ddirwy neu'r ddau.
152. Gellir gwneud darpariaeth drosiannol yn y rheoliadau er mwyn sicrhau proses o symud yn ddidrafferth o gyfundrefn bresennol i'r un newydd. Bydd gweithgareddau newydd a'r rhai sy'n cael eu newid yn sylweddol yn cael eu rheoleiddio o dan y gyfundrefn newydd a sefydlir o dan y rheoliadau o'r dyddiad y daw'r gyfundrefn newydd i rym fwy na thebyg. Bydd trwyddedau a chaniatadau sy'n bodoli eisoes yn parhau mewn grym a/neu'n cael eu trosglwyddo i'r gyfundrefn newydd.

RHAN 4 – YSWIRIANT RHAG LLIFOGYDD

153. Mae'r rhan hon yn rhoi cymal dalfan yn y Bil er mwyn mynd i'r afael ag argaeledd a fforddiadwyedd yswiriant i aelwydydd yn y DU sy'n wynebu perygl mawr o lifogydd. Caiff y cymal hwn ei ystyried eto yn ystod hynt y Bil gyda'r bwriad o alluogi'r Llywodraeth i gyflawni ei hymrwymiad i sicrhau trefniadau newydd ar ôl i'r trefniant gwirfoddol presennol (Datganiad Egwyddorion) rhwng y Llywodraeth a'r Diwydiant Yswiriant ddod i ben.

RHAN 5 - AMRYWIOL

154. Mae'r rhan hon yn cynnwys mesurau i symleiddio'r broses o wneud newidiadau strwythurol i Fyrddau Draenio Mewnol yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr gan alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n sefydlu gweithdrefn newydd ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol sy'n gyfan gwbl yn Lloegr i'w dilyn wrth wneud is-ddeddfau. Mae'n dileu cyfyngiadau ar y ffordd y cyhoeddir hysbysiadau cyhoeddus ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol yn Lloegr. Mae hefyd yn disodli cyfeiriadau statudol amrywiol at Bwyllgorau Rhanbarthol Amddiffyn Rhag Llifogydd ac yn rhoi yn eu lle gyfeiriadau at Bwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir. Mae'r Rhan hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 10 sy'n gwneud diwygiadau ynglŷn â Phwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir.
155. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae Atodlen 10 yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd a diogelu'r arfordir o dan baragraff 19 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Disgrifir Atodlen 10 ymhellach isod.

Atodlen 10: Diwygiadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir

156. Mae Atodlen 10 yn gwneud mân ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol ac offeryn statudol sy'n deillio o ddisodli Pwyllgorau Rhanbarthol Amddiffyn rhag Llifogydd gan Bwyllgorau Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

RHAN 6 – CYFFREDINOL A THERFYNOL

157. Mae'r rhan hon yn cynnwys cymalau sy'n rhoi pwerau i wneud diwygiadau canlyniadol a darpariaeth drosiannol, a chymalau sy'n ymwneud â graddau'r Bil, cychwyn darpariaethau'r Bil, a'r teitl byr.

158. Mae'r Bil yn ymestyn i Gymru.

Darpariaethau sy'n cynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

159. Mae'r darpariaethau yn y Bil sy'n cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth a gweithdrefn y Cynulliad y byddai'n rhaid iddynt ei dilyn fel a ganlyn:

- **Cymal 3:** Mae cymal 3(2) yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i ddiddymu adran 17A(3)(b) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 i'r graddau y mae'n ymwneud â safle a gyflenwir gan ddefnyddio system gyflenwi ymgymwrwr dŵr y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae cymal 3(4) yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i ddiddymu paragraff 7(b) o Atodlen 2A i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Bydd y ddau Orchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.
- **Cymal 8:** Mae'r adran 40H newydd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gynnwys rheolau Ofwat ynglŷn â chodi tâl am swmpgyflenwi dŵr. Nid yw'r canllawiau yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad.
- **Cymal 9:** Mae'r adran 110I newydd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gynnwys rheolau Ofwat ynglŷn â chodi tâl am ganiatáu prif gysylltiadau. Nid yw'r canllawiau yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad.
- **Cymal 10:** Mae'r adran 51CF newydd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gynnwys rheolau Ofwat ynglŷn â chodi tâl mewn cysylltiad â chytundeb adran 51A. Nid yw'r canllawiau yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad.
- **Cymal 11:** Mae'r adran 105ZH newydd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gynnwys rheolau Ofwat ynglŷn â chodi tâl mewn cysylltiad â chytundeb adran 104. Nid yw'r canllawiau yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad.
- **Cymal 12:** Mae'r adran 66M newydd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â chyflenwi dŵr i ymgymwrwr dŵr gan berson heblaw ymgymwrwr dŵr. Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

- **Cymal 16:** Mae'r adran 143D newydd yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gynnwys rheolau Ofwat ynglŷn â chynlluniau codi tâl. Nid yw'r canllawiau yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad.
- **Cymal 17:** Mae'r adran 144ZC newydd yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gynnwys rheolau Ofwat ynglŷn â chysylltiadau. Nid yw'r canllawiau yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad.
- **Cymal 24:** Mae'r adran 2B newydd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n nodi'r blaenoriaethau a'r amcanion i Ofwat wrth gyflawni swyddogaethau perthnasol sy'n ymwneud ag ardaloedd penodiad sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Cyn y gellir cyhoeddi'r datganiad mae'n rhaid iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad am gyfnod o 40 diwrnod.
- **Cymal 28:** Mae adran 37D yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i newid y cyfnod a bennir am y tro yn adran 37A(6)(c) (cyfnod ar gyfer paratoi cynllun rheoli adnoddau dŵr) mewn perthynas ag ymgwymerwyr dŵr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae'r adran 39D newydd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i newid y cyfnod a bennir am y tro yn adran 39B(6)(c) (y cyfnod ar gyfer paratoi cynllun rheoli adnoddau dŵr) mewn perthynas ag ymgwymerwyr dŵr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Bydd y ddau Orchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
- **Cymal 36:** Mae'r adran 144ZD newydd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar reolau ynglŷn â chodi tâl mewn perthynas ag ymgwymerwyr perthnasol y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Ni ellir cyhoeddi'r canllawiau nes eu bod wedi'u gosod ar ffurf ddrafft gerbron y Cynulliad am gyfnod o 40 diwrnod.
- **Cymal 37:** Mae'r adran 207E newydd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i ddarparu y gall unrhyw rai o swyddogaethau dyfarnu Ofwat gael eu harfer ar ei rhan gan y cyfryw berson ag a benodir yn y Gorchymyn, i'r graddau y bydd y swyddogaeth dan sylw yn cael ei harfer mewn perthynas ag ymgwymerwr perthnasol y mae ei ardal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Bydd y Gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
- **Cymal 38:** Mae'r adran 86ZA newydd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i roi pŵer i Brif Arolygydd Dŵr Yfed Cymru godi ffioedd am arfer swyddogaeth gan arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 86 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (a phenderfynu ar swm y ffioedd). Bydd y Gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
- **Cymal 42:** Mae'r adran 194E newydd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru roi canllawiau i Gorff Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r map o'r prif afonydd i Gymru. Nid yw'r canllawiau yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad.
- **Cymal 44:** Mae'r cymal hwn yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â rheoleiddio'r defnydd o adnoddau dŵr, sicrhau draenio tir neu reoli perygl llifogydd neu ddiogelu symudiad pysgod drwy ddyfroedd a reoleiddir. Bydd y rheoliadau yn ymwneud â Chymru. Bydd y

rheoliadau fel arfer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol ac eithrio'r set gyntaf o reoliadau a wneir o dan y darpariaethau galluogi, rheolaethau sy'n creu trosedd neu reolaethau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. O dan yr amgylchiadau hynny bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

- **Cymal 56:** Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud Gorchymyn i gychwyn cymal 5 ac Atodlen 5. Mae'r Gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.
- **Atodlen 2:** Mae'r adran 66A(8) newydd yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn nodi ystyr "rhagnodedig" mewn perthynas ag ymgymeryddwyr dŵr y mae eu hardaloedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Bydd y rheoliadau hynny yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

160. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn i'r DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur er mwyn galluogi i'r darpariaethau hyn fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru, a hynny am fod y diwydiant dŵr a charthffosiaeth yn cael ei reoleiddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf. Yn gyffredinol, golyga hyn fod gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb am ymgymeryddwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru (Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, Dŵr Cymru) ac mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyfrifoldeb am ymgymeryddwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr (Dŵr Hafren Trent).

161. Mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, Dŵr Cymru a Dŵr Hafren Trent i gyd yn gweithredu ar draws ffiniau daearyddol Cymru a Lloegr, felly mae'n fwy ymarferol deddfu ynglŷn â pholisi sy'n ymwneud â rheoli a rheoleiddio'r diwydiant dŵr mewn Bil gan Lywodraeth y DU sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru, yn ei thystiolaeth i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, wedi nodi ei barn y dylai cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â dŵr yn y dyfodol, ym mhob agwedd, ymestyn i'r ffin daearyddol â Lloegr, yn unol â'r cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer meysydd polisi eraill. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r cwmnïau hyn yn darparu cynlluniau a rhaglenni ar draws ffiniau daearyddol Cymru a Lloegr.. Fel y cyfryw, ar hyn o bryd, mae'n briodol deddfu i Gymru a Lloegr yn yr un Bil, mewn perthynas â'r agweddau hynny ar bolisi dŵr sy'n ymwneud â chyfrifoldebau ymgymeryddwyr dŵr a charthffosiaeth.

Goblygiadau ariannol

162. Ni ragwelir bod unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Alun Davies AC
Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd
Medi 2013